



Cyfraith Etholiadol – Adroddiad terfynol ar y cyd  
Crynodeb o adrioddiad

---

---



# Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith Yr Alban gan adran 1 Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green, Cadeirydd

Yr Athro Sarah Green

Yr Athro Nick Hopkins

Yr Athro Penney Lewis

Nicholas Paines CF

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr yw Phil Golding.

Comisiynwyr y Gyfraith yn Yr Alban yw:

Y Gwir Anrhydeddus Foneddiges Paton, Cadeirydd

Kate Dowdalls CF

Yr Athro Frankie McCarthy

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith Yr Alban yw Malcolm McMillan.

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad terfynol llawn ar 27 Chwefror 2020.

Mae testun yr adroddiad yma ar gael yn

<http://www.lawcom.gov.uk/project/electoral-law>

<http://www.scotlawcom.gov.uk/publications/>



# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Pennod 1: Cyflwyniad	1
Pennod 2: Y strwythur deddfwriaethol	4
Pennod 3: Rheoli a goruchwyllo	6
Pennod 4: Cofrestru etholwyr	8
Pennod 5: Dull pleidleisio	12
Pennod 6: Pleidleisio absennol	16
Pennod 7: Hysbysiad o etholiad ac enwebiadau	20
Pennod 8: Y broses bleidleisio	22
Pennod 9: Cyfrif pleidleisiau a datgan y canlyniadau	28
Pennod 10: Amserlenni a chyfuniad o bleidleisiau	31
Pennod 11: Troseddau etholiadol	35
Pennod 12: Rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu	40
Pennod 13: Her gyfreithiol	43
Pennod 14: Refferenda	49
<b>Geirfa</b>	<b>53</b>



# Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Deilliodd prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol o Unfed Raglen ar Ddeg Diwygio Cyfraith Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr. Mae cwmpas y prosiect, a bennwyd yn 2012, yn ymestyn i gyfraith gweinyddiaeth etholiadol, troseddau a heriau cyfreithiol. Nid yw'n cynnwys diwygio'r etholfraint, systemau pleidleisio, ffiniau etholiadol, ymgyrchoedd cenedlaethol, pleidiau, a rheoleiddio darlledu, a newid sylfaenol i sefydliadau.
- 1.2 Ar ôl i Lywodraethau'r DU a'r Alban roi sylwadau, aeth y tri Chomisiwn y Gyfraith yn y DU ati i wneud gwaith diwygio o sylwedd, arweiniodd at gyhoeddi ein papur ymgynghori, Cyfraith Etholiadol yn y DU.<sup>1</sup> Adolygodd ein adroddiad interim dilynol yr ymatebion i'n papur ymgynghori ar gyfraith etholiadol y DU a nododd ein 108 o argymhellion interim ar gyfer diwygio. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno ein argymhellion terfynol. Mae geirfa, sydd hefyd yn ymddangos yn yr adroddiad, ar gael ar ddiwedd y crynodeb yma.
- 1.3 Mae'r ymateb i'r prosiect yma wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol, a nifer o gynigion yn denu cefnogaeth unfrydol neu bron yn unfrydol. Mae rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned etholiadol dro ar ôl tro wedi pwysleisio yr angen am ddiwygio ein cyfreithiau etholiadol cymhleth mewn modd synhwyrol a rhesymegol. Yn ddiweddar dywedodd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin bod cyfuno a symleiddio cyfraith etholiadol yn "flaenoriaeth ddifrifol".<sup>2</sup>
- 1.4 Mae adroddiad manwl ar y gyfraith bresennol yn gynnwysedig yn ein papur ymgynghori, sydd yn 357 o dudalennau. Mae'r crynodeb yma yn amlinellu ein hargymhellion a geir yn yr adroddiad terfynol ac yn crynhoi'r syniadau y tu ôl iddynt. Mae'n canolbwyntio ar amcanion ehangach y prosiect diwygio: rhesymoli cyfraith etholiadol i fod yn fframwaith deddfwriaethol newydd, rhesymegol a modern. Ni thrafodir rhai argymhellion yn fanwl os ydynt o natur dechnegol. Mae nifer o'r cyfryw argymhellion yn deillio o'r nod i resymoli cyfreithiau etholiadol anghyson, moderneiddio cyfreithiau sydd wedi dyddio, neu gywiro gwallau neu elfennau anaddas yn y gyfraith bresennol. Mae'r rhesymau dros gefnogi'r argymhellion yma yn cael eu nodi'n fanwl yn ein papur ymgynghori a'r adroddiad terfynol.

## Pam adroddiad interim ac adroddiad terfynol?

- 1.5 Ar ôl cyhoeddi ein adroddiad terfynol, cyrhaeddodd y prosiect gyfnod adolygu a ragnodwyd gan ein cylch gorchwyl, gyda'r nod o sicrhau cymeradwyaeth y llywodraeth i symud ymlaen i'r trydydd cam (oedd yn cynnwys gwaith drafftio Bil sylweddol). Ond ymhen amser daeth yn amlwg bod gwaith ar adael yr Undeb Ewropeaidd, a'r pwysau

---

<sup>1</sup> Cyfraith Etholiadol (2014) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 218; Papur Trafodaeth Comisiwn y Gyfraith Yr Alban Rhif 158; Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon Rhif 20, ar gael yn [http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/03/cp218\\_electoral\\_law.pdf](http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/03/cp218_electoral_law.pdf).

<sup>2</sup> Electoral law: the urgent need for review, Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (2017-19) HC 244, t 5.

dilynol digynsail ar fusnes seneddol, yn golygu y byddai unrhyw Fil diwygio drafft cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno yn y tymor byr.

- 1.6 Yna aethom ati i archwilio a allwn weithredu rhai o'n hargymhellion drwy ailddrafftio a rhesymoli rheolau cynnal presennol, sydd mewn deddfwriaeth eilaidd. Gan weithio gyda Chwnsler Seneddol, cynhyrchwyd drafft sbesimen o reolau cynnal oedd yn rheoli tair pleidlais. Ond, penderfynwyd yng nghanol 2019, gyda chytundeb Swyddfa'r Cabinet, mai'r flaenoriaeth fyddai symud ymlaen i gynhyrchu'r adroddiad terfynol yma.

### **Diwygio cyfraith a pholisi**

- 1.7 Mae Pennod 1 yr adroddiad yn amlinellu cwmpas y prosiect a rhestr o'r digwyddiadau etholiadol sydd yn perthyn i'w gwmpas. Mae'n rhaid i'n gwaith diwygio fod yn seiliedig ar y gyfraith bresennol, ond rhaid i ni hefyd fod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau parhaus mewn polisi.
- 1.8 Mae'r heriau sydd yn wynebu cyfraith etholiadol wedi parhau i esblygu yn ystod oes y prosiect yma. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddio hysbysebu ar-lein, twyllwbyodaeth a bygythiadau ar-lein. Nid yw nifer o'r problemau yma wedi eu cyfyngu i gyfraith etholiadol, ac nid ydynt yn perthyn i gwmpas yr adroddiad yma mewn gwirionedd.
- 1.9 Mae nifer wedi cael eu hystyried gan gyrrff eraill: er enghraifft, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus adroddiad ar fygwth pobl gyhoeddus (ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn benodol) yn 2017.<sup>3</sup> Mae rhai o'r argymhellion a wnaethpwyd gan yr adroddiad hwnnw wedi cael eu hystyried gan y llywodraeth yn ei ymateb i'r adroddiad ac yn adroddiad Gwarchod y Drafodaeth gan Swyddfa'r Cabinet a'r adroddiad dilynol.<sup>4</sup>
- 1.10 Heb fwy o ymgynghori rydym yn amharod i roi mwy o argymhellion ar y testunau newydd yma. Er hynny, mae ein hadroddiad terfynol yn amcanu at ystyried effaith datblygiadau diweddar ar argymhellion a wneir yn yr adroddiad interim. Rydym yn gobeithio y bydd rhoi ein argymhellion ar waith a moderneiddio fframwaith cyfraith etholiadol yn golygu y bydd gwneud newidiadau i'r gyfraith yn broses gyflymach ac yn llai cymhleth. O ganlyniad i hynny, bydd cyfraith etholiadol yn gallu ymateb yn gyflymach i ddatblygiadau cymdeithasol a thechnolegol.

### **Datganoli a phrosiect diwygio teirochrog**

- 1.11 Roedd diwygio cyfraith etholiadol yn arfer bod yn brosiect diwygio cyfraith teirochrog, a ymgymerwyd gan bob un o'r tri Chomisiwn y Gyfraith yn y DU. Elwodd camau cynharach y prosiect yn fawr o waith Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon. Daeth y sefydliad i fod yn anweithredol yn 2015 oherwydd pwysau cyllidebol yn yr Adran Gyfiawnder. Llofnododd Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon, Yr Anrhydeddus Mr Ustus Maguire, adroddiad interim 2016 oherwydd cyfranogiad diweddar Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon. Nid oedd yn gallu gwneud hynny ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn, ac oherwydd hynny mae'r argymhellion wedi eu

---

<sup>3</sup> Report of the Committee on Standards in Public Life on Intimidation in public life (Rhagfyr 2017) Cm 9543.

<sup>4</sup> Swyddfa'r Cabinet, Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information (Gorffennaf 2018) and Response to Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information (Mai 2019).



cyfyngu i Brydain Fawr. Rydym yn parhau i gyfeirio at gyfraith etholiadol Gogledd Iwerddon pan fo hynny yn hysbysu ein hargymhellion.

- 1.12 Ers ein hadroddiad interim, mae cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai etholiadau penodol wedi cael eu datganoli ymhellach gan Ddeddf Yr Alban 2016 a Deddf Cymru 2017. Yn ddiweddar mae Seneddau Cymru a'r Alban wedi pasio deddfwriaeth sydd yn llywodraethu eu hetholiadau a'u refferenda eu hunain, ac mae Biliau eraill yn cael eu hystyried.<sup>5</sup>
- 1.13 Felly mae'r cysyniad yr oedd gennym ar ddechrau'r prosiect yma, y byddai un Ddeddf gan Senedd y DU yn llywodraethu pob etholiad, wedi dyddio. Er nad ydym erbyn hyn yn argymhell un Ddeddf, rydym yn parhau i gredu bod cysondeb yn werthfawr; gall anghysonderau olygu bod gweinyddu etholiadau yn anodd, yn arbennig pan fo etholiadau yn cyd-ddigwydd. Byddem yn annog i ddeddfwrfeydd gydweithredu, er mwyn atal datganoli rhag achosi set newydd o anghysonderau pan ellir eu hosgoi. Trafodir y pwnc yma yn fanylach ym mhennod 2.

---

<sup>5</sup> Mae Senedd yr Alban wedi pasio Deddf Refferenda (Yr Alban) 2020, ac ar hyn o bryd mae'n ystyried Bil Etholiadau'r Alban (Diwygio) a Bil Etholiadau'r Alban (Etholfraint a Chynrychiolaeth). Yng Nghymru, mae Senedd Cymru yn ddiweddar wedi pasio Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a chyflwynwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar 18 Tachwedd 2019.

## Chapter 2: Y strwythur deddfwriaethol

- 2.1 Mae cyfraith etholiadol yn gymhleth, swmpus a darniog. Ar ôl 1999 crëwyd llawer mwy o fathau o etholiadau a refferenda lleol, tra bod atebolrwydd i refferenda cenedlaethol yn tyfu. Pasiwyd ddeddfwriaeth eilaidd oedd yn darparu ar gyfer math arall o etholiad, sef etholiad maerol awdurdodau cyfun, ar ôl cyhoeddi ein adroddiad interim. Mae pob math o etholiad neu refferendwm yn cael eu llywodraethu yn gyffredinol gan eu deddfwriaeth pwrpasol eu hunain. Rydym yn disgrifio'r fframwaith yma o ddeddfwriaeth bwrpasol yn "etholiad-benodol".
- 2.2 Mae dros 25 statud a llawer mwy o ddarnau o ddeddfwriaeth eilaidd yn llywodraethu maes cyfraith etholiadol y mae'r prosiect diwygio yma yn ei ystyried. Mae peth o'u cynnwys yn cael ei ailadrodd, bron air am air, o'r gyfraith "glasurol" sydd yn gynwysedig yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"), sydd yn llywodraethu etholiadau Seneddol y DU a rhai agweddau o etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, Yr Alban a Lloegr.
- 2.3 Mae'r holl etholiadau newydd a grëwyd yn defnyddio system bleidleisio sydd yn wahanol i'r system cyntaf i'r felin, y dyluniwyd y gyfraith glasurol sydd yn gynwysedig yn Neddf 1983 ar ei chyfer. Yn unol â hynny, roedd yn rhaid addasu peth o'r gyfraith glasurol er mwyn ystyried y gwahanol systemau pleidleisio. Rydym yn galw ymdrechion i addasu rheol glasurol ar gyfer system bleidleisio newydd yn "drosiadau". Nid yw'r rhain wedi bod yn gyson, hyd yn oed ar gyfer etholiadau sydd yn defnyddio'r un system bleidleisio. Mae hynny yn cyfrannu'n fawr at broblemau cysylltiedig â swmp a chymhlethdod.
- 2.4 Mae'n achosi problemau nid yn unig i'r rhai sydd ym ymgynghori â'r gyfraith, ond hefyd o ran gweithredu polisiâu newydd neu addasedig. Mae cyflwyno etholiad newydd yn golygu bod angen efelychu pob agwedd o'r gyfraith etholiadol bresennol, tra bod cyflwyno polisi newydd yn golygu bod angen nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl fathau o etholiadau. Nid yw hynny yn ddymunol pan fo nifer fawr o reolau mewn gwirionedd yn cael eu rhannu gan bob etholiad. Nid yw'n ddefnydd da ac effeithlon o adnoddau'r Llywodraeth a'r Senedd i ddrafftio a chraffu ar yr un newid polisi, neu bolisi newydd, mewn darnau niferus o ddeddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd. Nid yw ychwaith yn fuddiol i'r rhai sydd yn defnyddio cyfraith etholiadol i gael cymaint o ffynonellau o'r fath, a'r gwahaniaethau anochel fydd yn treiddio i fanylder gweinyddiaeth etholiadol cysylltiedig â digwyddiadau etholiadol penodol.
- 2.5 Ein safbwynt ni yw y dylai cyfraith etholiadol gael ei lywodraethu gan fframwaith resymegol a holistig sydd yn llywodraethu pob etholiad sydd yn bodoli, yn ddarostyngedig i fframwaith datganoledig. Mae'r fframwaith hwnnw wedi esblygu yn ystod oes y prosiect yma: mae gan Seneddau Cymru a'r Alban gymhwysedd deddfwriaethol llawn bron mewn perthynas ag etholiadau i Seneddau Cymru a'r Alban, yn ogystal ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban.<sup>6</sup> Mae rhai

---

<sup>6</sup> Yn wahanol i Senedd yr Alban a Senedd Cymru, nid oes gan Gynulliad Gogledd Iwerddon unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau.

materion wedi cael eu cadw ar gyfer Senedd y DU, yn cynnwys rhai agweddau o niferoedd a chyfuno pleidleisiau.

- 2.6 Felly byddai fframwaith resymegol a holistig o'r fath yn cynnwys Deddf y DU (fyddai'n llywodraethu etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig, etholiadau yn Lloegr ac etholiadau eraill y cedwir cymhwysedd deddfwriaethol ar eu cyfer), Deddf Yr Alban yn unig (yn llywodraethu etholiadau datganoledig yn yr Alban), a Deddf Cymru yn unig (yn llywodraethu etholiadau datganoledig yng Nghymru). O dan y cynllun yr ydym yn ei gynnig byddai unrhyw etholiad newydd - neu refferendwm - yn gallu defnyddio'r seilwaith cyfraith etholiadol presennol, pan fo penderfyniadau polisi penodol wedi cael eu gwneud, megis pa etholfraint fydd yn cael ei defnyddio. Byddai unrhyw newidiadau i bolisi etholiadol yn golygu y byddai angen llawer llai o addasiadau deddfwriaethol. Mae Pennod 2 yn cynnig dau argymhelliad i'r diben hwnnw yr ydym yn eu nodi isod.
- 2.7 Ond mae'n bwysig nodi bod yr ymagwedd sydd y tu ôl i'r argymhellion yma yn tanategu argymhellion a wneir mewn penodau eraill ble mae trefniadau etholiad-benodol mewn perthynas â chyfraith etholiadol yn achosi problemau penodol. Rhesymoli'r fframwaith deddfwriaethol yw nod allweddol y diwygio, a bydd hynny yn caniatáu i'r diwygio greu arbedion sylweddol o ran manylion a swmp y cyfreithiau mewn perthynas â chynnal etholiadau. Mae'r ymagwedd presennol wedi arwain at gymhlethdod sylweddol yn y rheolau sydd yn llywodraethu enwebiadau (pennod 7), pleidleisio (pennod 8), cyfrif pleidleisiau (pennod 9) a chyfuno pleidleisiau (pennod 10).

#### **Argymhelliad 1.**

- 2.8 Dylai'r cyfreithiau presennol sydd yn llywodraethu etholiadau gael eu haildrefnu i fod yn un fframwaith deddfwriaethol cyson sydd yn llywodraethu pob etholiad (a ymddeddfir yn unol â chymhwyseddau deddfwriaethol y DU).

#### **Argymhelliad 2.**

- 2.9 Dylai cyfreithiau etholiadol fod yn gyson ar gyfer pob etholiad, yn ddarostyngedig i wahaniaethau o ganlyniad i system bleidleisio neu egwyddor neu bolisi arall y gellir ei gyfiawnhau.

## Chapter 3: Rheoli a goruchwyllo

- 3.1 Mae cynnal etholiadau yn rhannu'n dair prif dasg. Mae'r ddwy gyntaf - cynnal cofrestr o etholwyr a threfniadau ar gyfer pleidleisio absennol (drwy'r post neu ddirprwy) - yn cael eu cyflawni gan swyddogion cofrestru ac fe'u hystyrir ym mhennod 4 a 6 yn ôl eu trefn. Mae'r drydedd dasg, cynnal etholiadau, yn cael ei chyflawni gan swyddogion canlyniadau. Oherwydd nad yw'r prosiect diwygio yma yn ystyried cwestiynau sefydliadol sylfaenol, ei dasg yw egluro a symleiddio'r gyfraith sydd yn llywodraethu swyddogaethau swyddogion canlyniadau y DU.
- 3.2 Un ffynhonnell cymhlethdod yw'r dybiaeth gyfreithiol, mewn etholiadau Seneddol yng Nghymru a Lloegr, mai pwysigion lleol (megis y siryf sirol neu faer neu gadeirydd cyngor) yw'r swyddogion canlyniadau. Mewn gwirionedd, eu hunig rôl yw derbyn y writ sydd yn ysgogi'r etholiad a datgan y canlyniad a dychwelyd y writ. Mae pob elfen arall (sydd yn weinyddol sylweddol) o gynnal etholiad yn cael eu cyflawni gan swyddog canlyniadau "dros dro", sydd yn swyddog cofrestru yn yr etholaeth. Mae'r haen ychwanegol yma o gymhlethdod yn ddiangen a dryslyd; ein safbwynt ni yw mai'r swyddog canlyniadau ddylai fod yr un sydd yn gyfrifol am gynnal yr etholiad mewn gwirionedd. Os mai'r polisi yw cadw rôl swyddogion canlyniadol seremonïaidd o ran cyhoeddi canlyniadau etholiadau, gellir rhoi grym i hynny mewn deddfwriaeth eilaidd.

### Argymhelliad 3.

- 3.3 Y sawl yw'r swyddog canlyniadau dros dro mewn etholiadau Seneddol yng Nghymru a Lloegr, o dan y gyfraith bresennol, fydd yn cael yr holl bwerau mewn perthynas â'r etholiad, ond efallai bydd yn ofynnol iddo, o dan ddeddfwriaeth eilaidd, ddirprwyo'r dasg o gyhoeddi'r canlyniad ar lafar i berson arall.
- 3.4 Dyma'r cam cyntaf tuag at gael fynegiant symlach ar draws yr holl etholiadau o bwerau a dyletswyddau swyddogion canlyniadau. Mae'r nesaf yn ymwneud â lluosogrwydd swyddogion sydd yn ymwneud â chynnal rhai etholiadau. Ym Mhrydain Fawr, swyddogion llywodraeth leol yw swyddogion canlyniadau. Ond mae'r rhan fwyaf o etholiadau yn pontio mwy nag un ardal llywodraeth leol. Felly mae'r gwaith o reoli'r pleidleisiau yn cael ei oruchwyllo gan fwy nag un swyddog canlyniadau, a bydd gan un ohonynt swyddogaeth uwch mewn perthynas â'r etholiad cyfan. Rydym yn galw'r rhain yn swyddogion canlyniadau "cyfarwyddo", oherwydd bod gan y rhan fwyaf bŵer cyfarwyddo o dan y gyfraith dros swyddogion canlyniadau lleol sydd yn goruchwyllo'r bleidlais mewn is-adran yn yr ardal neu etholaeth. Mae fframio'r pŵer cyfarwyddo o dan y gyfraith yn amrywio o un etholiad i'r llall. Yng nghyd-destun cyfuniad o bleidleisiau,<sup>7</sup> pan mai un o swyddogion canlyniadau'r pleidleisiau cyfun yw'r swyddog "arweiniol", rydym yn nodi peth dryswch ynghylch rôl a statws cyfarwyddiadau gan y swyddog cyfarwyddo i'r swyddog arweiniol.

<sup>7</sup> Gall hynny ddigwydd pan fo etholiadau i fwy nag un corff etholedig yn digwydd yn yr un lle ar yr un diwrnod.

- 3.5 Ein safbwynt ni yw y dylai'r gyfraith sydd yn llywodraethu cynnal etholiadau gael ei hailddatgan a'i mynegi yn gyson mewn deddfwriaeth ar gyfer pob etholiad, yn ddarostyngedig i'r fframwaith datganoledig. Dylai'r rhain egluro, yn benodol, beth yw dyletswyddau a phwerau swyddogion canlyniadau cyfarwyddo neu ranbarthol mewn etholiadau a reolir gan fwy nag un swyddog canlyniadau.

#### **Argymhelliad 4.**

- 3.6 Dylai cyfraith etholiadol nodi pwerau a dyletswyddau swyddogion canlyniadau ar gyfer pob etholiad o fewn cymwyseddau deddfwriaethol seneddau yn y Deyrnas Unedig.

#### **Argymhelliad 5.**

- 3.7 Dylai swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau swyddogion canlyniadau cyfarwyddo a rhanbarthol mewn etholiadau a reolir gan fwy nag un swyddog canlyniadau gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn ogystal â dyletswydd swyddogion i gydweithredu ag eraill sydd yn cynnal yr un bleidlais. Dylai hynny ymestyn i weinyddu'r etholiad dan sylw. Gall deddfwriaeth eilaidd ddarparu mwy o fanylion ynghylch maint pwerau cyfarwyddo, yn cynnwys yr effaith ar pleidleisiau cyfun.
- 3.8 Er mwyn hwyluso cynnal y bleidlais, mae ardaloedd etholiadol (etholaethau, wardiau neu ddosbarthiadau) yn cael eu rhannu yn ardaloedd gweinyddol ble bydd y pleidleisio yn digwydd. Yn y ddeddfwriaeth gelwir y rhain yn "ardaloedd pleidleisio". Yn yr ardaloedd yma ceir "man pleidleisio" - term na ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth, ond a ddeallir fel yr adeilad ble lleolir yr orsaf pleidleisio. Arwyddocâd cyfreithiol y manau pleidleisio yw bod raid i'r swyddog canlyniadau leoli gorsafocedd pleidleisio yn y man pleidleisio dynodedig.
- 3.9 Mae'r adolygu a'r addasu cyfnodol o ardaloedd a manau pleidleisio yn cael ei wneud ym Mhrydain Fawr gan gyngor yr awdurdod lleol, sydd eu hunain yn weithredwyr etholedig a gwleidyddol. Rydym yn ategu ein safbwynt yn ein papur ymgynghori a'r adroddiad interim mai'r swyddogion canlyniadau yn hytrach na chynghorwyr etholedig ddylai fod yn gyfrifol am y dasg weinyddol hon, sydd wedi ei hanelu at wneud pleidleisio yn gyfleus i bleidleiswyr. Rydym hefyd yn dod i'r casgliad y dylai apeliadau o adolygiadau ardaloedd pleidleisio barhau i gael eu clywed gan y Comisiwn Etholiadol.

### **Argymhelliad 6.**

- 3.10 Mae dynodi ac adolygu ardaloedd pleidleisio yn fater gweinyddol ddylai fod, ym Mhrydain Fawr, yn gyfrifoldeb ar y swyddog canlyniadau yn hytrach na chynghorau awdurdod lleol. Dylai apeliadau yn erbyn penderfyniadau o'r fath barhau i gael eu clywed gan y Comisiwn Etholiadol.

## Chapter 4: Cofrestru etholwyr

- 4.1 Mae'r gyfraith sydd yn ymwneud â chofrestru etholiadol wedi newid yn sylweddol ers 1983. Wrth i bolisi ddatblygu o gofrestru aelwydydd drwy ganfasio blynyddol, i gofrestru "treigl" drwy gydol y flwyddyn, i'n system bresennol o gofrestru etholiadol unigol, mae adran cofrestru etholiadol Deddf 1983 wedi tyfu i fod yn eithriadol o gymhleth. Ein prif nod diwygio yw ailddatgan y gyfraith bresennol fel ei bod yn haws ei deall a'i chymhwyso. Mae hynny yn dechrau gyda datganiad o'r etholfraint.

### Argymhelliad 7.

- 4.2 Dylai'r etholfreiniau ar gyfer pob etholiad gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

- 4.3 Yna ceir y cysyniad cyfreithiol ynghylch preswylfa, sydd yn cysylltu unigolyn sydd â'r etholfraint i ardal ddaearyddol ble gall ef neu hi ei defnyddio. Mae diffinio preswylfa mewn deddfwriaeth yn anodd. Rydym yn credu y dylai'r gyfraith barhau i nodi'r ffactorau y mae'n rhaid i swyddogion cofrestru eu hystyried er mwyn sefydlu preswylfa. Yn y cyfamser, mae yna gwmpas i symleiddio'r gyfraith yn sylweddol mewn perthynas â phreswylfa "dybiannol", gan glymu yr hyn a elwir yn etholwyr "categori arbennig" megis morwyr masnachol neu aelodau'r lluoedd arfog i le, er nad ydynt mewn gwirionedd yn byw yno. Rydym yn ystyried y dylai'r un gofyniad i ddatgan cysylltiad lleol fod yn gymwys i'r rhain.

### Argymhelliad 8.

- 4.4 Dylai'r gyfraith ynghylch preswylfa etholiadol, yn cynnwys ffactorau sydd i'w hystyried gan swyddogion cofrestru etholiadol, a mewn perthynas ag etholwyr categori arbennig, gael ei hailddatgan yn glir a syml mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### Argymhelliad 9.

- 4.5 Dylai deddfwriaeth sylfaenol ddelio ag etholwyr "categori arbennig" drwy gyfundrefn syml sydd yn darparu ar gyfer datgan cysylltiad lleol sydd yn sefydlu man preswyllo tybiannol; dylai gofynion gweinyddol eraill fod mewn deddfwriaeth eilaidd.

- 4.6 Mae'r gyfraith sydd yn llywodraethu'r broses gofrestru yn gymysgedd gymhleth o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Mae'n deillio o hen gysyniad o gofrestr etholiadol ffisegol, a gynhyrchir unwaith y flwyddyn, gydag addasiadau misol drwy broses ar bapur. Mae cymhlethodau'r trefniadau presennol wedi arwain at dybiaeth anghywir ym Mhrydain Fawr bod y terfyn amser ar gyfer cofrestru "hwyr" yn 11 diwrnod cyn yr

etholiad yn hytrach na 12. Hefyd, mae yna bum cofrestr etholiadol neilltuol o dan y gyfraith. Yn ymarferol mae'r pum cofrestr yn cael eu cyfuno yn un set data a gedwir mewn "system reoli etholiadol", sydd yn ddarn o feddalwedd a weithredir gan y swyddog cofrestru.

- 4.7 Gellir nodi'r pwynt cofrestru yn syml: mae'n bendant yn sefydlu'r hawl i bleidleisio, a'r etholiadau y gall yr etholwr bleidleisio ynddynt. Rydym yn credu bod yr ymdriniaeth gyfreithiol o'r gofrestr etholiadol angen ei symleiddio. Dylid cael un gofrestr o dan y gyfraith, fydd yn gallu adlewyrchu pa etholfraint sydd gan yr etholwr. Yn ddibynol ar hynny, dylai'r gyfraith bresennol gael ei hailddatgan yn symlach. Dylai deddfwriaeth sylfaenol gynnwys egwyddorion craidd, pwerau a dyletswyddau swyddogion cofrestru a gofynion tryloywder (yn cynnwys mynediad i'r gofrestr). Gall deddfwriaeth eilaidd nodi'r manylion, fel sy'n ofynnol. Mae nifer o'n hargymhellion yn gysylltiedig â'n nod o symleiddio'r gyfraith ynghylch cofrestru etholiadol.

#### **Argymhelliad 10.**

- 4.8 Dylai darpariaethau Deddf 1983 ar gyfer cynnal a chael mynediad i'r gofrestr etholwyr gael eu symleiddio a'u hailddatgan.

#### **Argymhelliad 11.**

- 4.9 Dylai deddfwriaeth sylfaenol gynnwys egwyddorion cofrestru craidd yn cynnwys amcan cofrestr gynhwysfawr a chywir a dyletswyddau a phwerau ategol swyddogion cofrestru; yr egwyddor bod y gofrestr yn pennu hawl i bleidleisio; gofynion ynghylch tryloywder, craffu ac apeliadau lleol; a'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais i gofrestru.

#### **Argymhelliad 12.**

- 4.10 Dylai'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais i gofrestru gael ei fynegi fel nifer o ddyddiau cyn y bleidlais. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol amrywio hynny cyn belled â bod hynny rhwng dyddiau 12 a phump cyn y bleidlais.

#### **Argymhelliad 13.**

- 4.11 Dylai deddfwriaeth sylfaenol ragnodi un gofrestr etholiadol, sydd yn cynnwys cofnodion a ddelir ar ffurf papur neu electronig, sydd yn gallu dangos yr etholiad(au) y mae gan yr etholwr hawl i bleidleisio ynddynt.



#### **Argymhelliad 14.**

4.12 Dylai deddfwriaeth eilaidd nodi'r rheolau gweinyddol manwl ynghylch ceisiadau i gofrestru, y penderfyniad, ffurf y gofrestr a'i chyhoeddi, a mynediad i'r gofrestr lawn olygedig.

4.13 Mae argymhellion eraill yn y bennod hon yn deillio o broblemau penodol y daethom ar eu traws wrth adolygu'r gyfraith bresennol.

4.14 Mae'r cyntaf yn ymwneud â diogelu i'r dyfodol. Rydym yn gweld rhinwedd gofyniad cyfreithiol i allu allforio data swyddogion cofrestru i, a bod eu meddalwedd yn gallu rhyngweithio â, meddalwedd swyddogion cofrestru eraill. Gellid defnyddio hynny mewn amrywiol ffyrdd. Ar unrhyw adeg yn y dyfodol, petai technoleg yn cael ei dyfeisio er mwyn caniatáu i gofrestrau gorsafoedd pleidleisio gael eu diweddarau'n ddigidol mewn amser real, byddai hynny yn galluogi i etholwyr bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio o'u dewis nhw, ac nid yr un a ddyrannir iddynt yn seiliedig ar ble maent yn byw.

#### **Argymhelliad 15.**

4.15 Efallai y bydd deddfwriaeth eilaidd yn ei gwneud yn ofynnol i allu allforio systemau swyddogion cofrestru sydd yn rheoli data i, a rhyngweithio â meddalwedd swyddogion eraill, drwy gyfrwng ychydig o fanylebau neu ofyniad ardystio a nodir mewn deddfwriaeth eilaidd.

#### **Argymhellion ynghylch ail breswylfa**

4.16 Yn olaf, rydym yn cynnig set o argymhellion ynghylch yr ymdriniaeth gyfreithiol o ail breswylfeydd etholiadol. Mae'r llysoedd wedi sefydlu'r posibilrwydd o gael ail breswylfa mewn egwyddor. Er enghraifft gall myfyrwyr gofrestru mewn neuaddau preswyl yn ogystal â chartref y teulu. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys ail gartref sydd ei angen ar gyfer gyrfa etholwr. Ni roddir canllawiau deddfwriaethol i swyddogion cofrestru ynghylch sut mae penderfynu a yw ail gyfeiriad yn gyfystyr ag ail breswylfa etholiadol, ac mae hynny yn achosi risg o greu arferion anghyson mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae anghysondeb o'r fath yn achosi pryder, yn rhannol oherwydd gallai greu canfyddiad o duedd wleidyddol ym mhenderfyniadau swyddogion cofrestru. Mae yna hefyd risg y bydd etholwyr yn anfwriadol yn pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad os anfonir papurau pleidleisio drwy'r post i'r ddau gyfeiriad.

4.17 Rydym yn credu bod canllawiau deddfwriaethol yn ddymunol a dichonadwy, ac rydym yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o ffactorau sydd yn tueddu i sefydlu ail breswylfa ym mhennod 4 ein hadroddiad terfynol.<sup>8</sup> Rhan allweddol o'n hargymhellion yw'r egwyddorion y dylai'r gyfraith nodi rhai ffactorau y dylid eu hystyried mewn achosion o

---

<sup>8</sup> Adroddiad Terfynol para 4.61.

ail breswylfa, ac y dylai rhai sydd yn gwneud cais i gofrestru mewn perthynas ag ail breswylfa nodi'r ffaith honno.

**Argymhelliad 16.**

- 4.18 Dylai deddfwriaeth sylfaenol gydnabod yn amlwg y posibilrwydd o fodloni'r prawf preswylfa mewn mwy nag un lle.

**Argymhelliad 17.**

- 4.19 Dylai'r gyfraith nodi'r ffactorau ddylid eu hystyried gan swyddogion cofrestru wrth benderfynu ar geisiadau mewn perthynas ag ail breswylfeydd, megis y rhai a nodir ym mharagraff 4.61 ein hadroddiad terfynol.

**Argymhelliad 18.**

- 4.20 Dylai fod yn ofynnol i rai sydd yn gwneud cais mewn perthynas ag ail gartref nodi'r ffaith honno. Gall deddfwriaeth eilaidd ragnodi sut y dylai swyddogion cofrestru geisio cael y wybodaeth sydd yn ofynnol er mwyn penderfynu ar y cais.

**Argymhelliad 19.**

- 4.21 Dylid gofyn i etholwyr sydd yn gwneud cais i gofrestru mewn perthynas ag ail gartref nodi pa gartref maent yn dymuno ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol.

## Chapter 5: Dull pleidleisio

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y gyfraith mewn perthynas â'r bleidlais gudd a'r darpariaethau cyfreithiol ynghylch papurau pleidleisio.
- 5.2 Mae egwyddor cyfrinachedd pleidleiswyr, a gweithredu ar hynny, wedi ei hen sefydlu. Un o sgil effeithiau hynny yw bod y brif ddarpariaeth ynghylch gwarchod cyfrinachedd, adran 66 Deddf 1983, wedi dyddio o ystyried datblygiadau modern: yn bennaf, y rhain yw argaeledd ffotograffiaeth ffônau symudol mewn gorsafoedd pleidleisio, ac ymestyn gwarchodaeth i gyfrinachedd pleidleiswyr i wybodaeth a gafwyd pan fo etholwr yn pleidleisio drwy'r post y tu allan i orsaf bleidleisio. Mae ein hargymhelliad cyntaf yn amcanu at fynd i'r afael â'r mater hwnnw.

### Argymhelliad 20.

- 5.3 Dylai'r darpariaethau ynghylch cyfrinachedd sydd ar hyn o bryd yn adran 66 Deddf 1983 gael eu hymestyn i wybodaeth a geir wrth bleidleisio drwy'r post a gwahardd tynnu lluniau mewn gorsafoedd pleidleisio heb ganiatâd ymlaen llaw gan y swyddog llywyddu.
- 5.4 Mae ein hargymhelliad nesaf yn ymwneud â fersiwn y DU sydd wedi ei hen sefydlu o'r bleidlais gudd, sydd yn darparu cyfrinachedd i bleidleiswyr tra'n caniatáu olrhain pleidleisiau yn farnwrol er mwyn datgelu twyll. Mae angen diweddarau'r gyfraith er mwyn sicrhau bod y DU yn amlwg ac yn ddiamau yn cydymffurfio ag erthygl 3 Protocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae cyfrinachedd cymwys, sydd wedi ei sefydlu yn y DU ers 1872, yn caniatáu i bleidleiswyr dilys bleidleisio'n gyfrinachol, tra'n caniatáu i olrhain pleidleisiau yn farnwrol er mwyn gwrthwneud neu ganfod twyll. Mae hynny yn cael ei hwyluso drwy storio rhestrau mewn pecynnau wedi'u selio sydd yn galluogi i bapur pleidleisio pleidleisiwr penodol gael ei adnabod gan lys etholiad.
- 5.5 Mewn etholiadau Seneddol yn y DU, mae yna bŵer festigiol gan Dŷ'r Cyffredin i orchymyn archwilio papurau pleidleisio a'r rhestrau rhifau cyfatebol, ac rydym yn credu bod hynny yn anacroniaeth. Dim ond unwaith mae hynny wedi cael ei ddefnyddio, a dim ond oherwydd na allai'r broses o olrhain pleidleisiau dan oruchwyliaeth y llys ddelio â'r broblem dan sylw. Mae ein hargymhellion yma yn tacluso cyfreithiau sydd wedi bod yn ddigynnewid i raddau helaeth ers 1872.

### Argymhelliad 21.

- 5.6 Dylai'r ymrwymiad i storio pecynnau wedi'u selio nodi y dylid eu storio yn ddiogel.

### **Argymhelliad 22.**

- 5.7 Dylai cyfrinachedd gael ei ddatgloi drwy orchymyn llys yn unig, gyda chamau diogelu rhag datgelu sut y pleidleisiodd unigolyn yn cael eu hymestyn i bleidlais annilys ddiniwed; ond ni ddylai unrhyw beth yn y cyfryw gamau diogelu wahardd adrodd yn gyhoeddus am dwyll etholiadol.

### **Dyluniad a chynnwys papurau pleidleisio**

- 5.8 Ar hyn o bryd, mae papurau pleidleisio ar ffurf a ragnodir mewn deddfwriaeth eilaidd (neu a atodwyd i Ddeddf 1983, ond yn ddarostyngedig i ddiwygiad gan ddeddfwriaeth eilaidd). Bu i gynnydd yn nifer y digwyddiadau etholiadol, a'r amrywiaeth o systemau pleidleisio a ddefnyddir yn y DU, arwain at beth beirniadaeth mewn perthynas â chysondeb ac eglurder mathau o bapurau pleidleisio a ragnodir. Yn ddiweddar, bu symud tuag at fathau o bapurau pleidleisio a ddyluniwyd yn broffesiynol ac a brofwyd gan ddefnyddwyr, a hynny wedi ei dystiolaethu gan newidiadau yn y ffurflenni a ragnodir fel rhan o adolygiad gan Lywodraeth y DU.
- 5.9 Gan adlewyrchu'r tueddiadau diweddar yma, rydym yn credu y dylai ffurf papurau pleidleisio barhau i gael ei ragnodi gan ddeddfwriaeth eilaidd. Er mwyn gwella profiad pleidleiswyr ac effeithiolrwydd papurau pleidleisio, dylid ymddeddfu egwyddorion cyffredinol fel y dylai dyletswydd bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar newidiadau i gyfraith etholiadol gyfeirio'n benodol, yng nghydestun papurau pleidleisio a ragnodir, at gydymffurfio â'r egwyddorion hynny. Maent wedi eu nodi yn ein hargymhellion.
- 5.10 Y nod polisi yw y dylai papurau pleidleisio fod mor hawdd â phosibl i'w deall a'u defnyddio i gymaint o bobl â phosibl; mae hynny yn cynnwys rhai ag anableddau, ond hefyd rhai sydd â sgiliau llythrennedd gwael neu allu gwael o ran yr Iaith Gymraeg neu Saesneg. Yn ein hadroddiad terfynol rydym hefyd yn nodi gwaith diweddar y Comisiwn Etholiadol ar fynediad i'r bleidlais i bleidleiswyr ag anableddau.

### **Argymhelliad 23.**

- 5.11 Dylai ffurf a chynnwys papurau pleidleisio barhau i gael ei ragnodi mewn deddfwriaeth eilaidd.

#### **Argymhelliad 24.**

5.12 Dylid sefydlu dyletswydd i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar ffurf a chynnwys papurau pleidleisio a ragnodir drwy gyfeirio at egwyddorion:

- (1) eglurder, yn cynnwys ar gyfer pleidleiswyr anabl;
- (2) cysondeb mewnol; a
- (3) chysondeb cyffredinol ag etholiadau eraill.

## Chapter 6: Pleidleisio absennol

- 6.1 Mae'r gyfraith mewn perthynas â phleidleisio absennol (drwy'r post neu ddirprwy) yn eithriadol o gymhleth, ac mae wedi ei nodi mewn cymysgedd o ddeddfwriaeth eilaidd sydd ar wahân i deddfwriaeth a rheolau etholiadol sydd yn llywodraethu cynnal etholiad. Rydym ni yn canolbwyntio ar ei symleiddio a'i moderneiddio. Mae'r cwestiwn ynghylch hawl i gael plediais drwy'r post a'r cydbwysedd rhwng mynediad i bleidleisio a diogelu rhag twyll yn faterion gwleidyddol nad yw Comisiwn y Gyfraith yn eu hystyried.

### Hawl i bleidlais absennol a chofnodion pleidleisiau absennol

- 6.2 Rhan o'r rheswm am y cymhlethdod yw bod y fframweithiau cyfreithiol ar gyfer pleidleisio absennol yn etholiad-benodol: mae'r gyfraith yn ystyried y bydd ceisiadau a chofnodion o bleidleiswyr absennol yn cael eu cynnal gan swyddogion cofrestru, sydd yn berthnasol i'r etholiad(au) a lywodraethir gan ddarn penodol o ddeddfwriaeth. Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn gymwys i etholiadau Seneddol y DU, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf, etholiadau maerol ac etholiadau maerol awdurdodau cyfun yng Nghymru a Lloegr ac etholiadau llywodraeth leol yn Yr Alban. Mae darnau penodol o ddeddfwriaeth eilaidd etholiad-benodol yn copïo eu darpariaethau ar gyfer yr etholiadau penodol maent yn eu llywodraethu. Mae deddfwriaeth eilaidd etholiad-benodol yn gwneud ymdrechion lletchwith ac anghyson i ymgorffori cofnodion pleidleisiau absennol o dan fframweithiau deddfwriaethol etholiadau eraill.
- 6.3 Mae'r dybiaeth y gellir gwneud ceisiadau am bleidleisiau absennol ar gyfer etholiadau penodol wedi arwain at rai problemau gweinyddol, ac yn refferendwm Pleidlais Amgen ym Mai 2011 achosodd broblemau gwirioneddol i bleidleiswyr pan, yn groes i'w disgwyliad, yr oedd ganddynt bleidlais absennol dim ond ar gyfer y refferendwm yn unig ac nid ar gyfer etholiadau llywodraeth leol oedd yn digwydd ar yr un pryd.
- 6.4 Rydym yn credu y dylai deddfwriaeth sylfaenol lywodraethu hawl i bleidlais absennol yn hanesyddol. Byddai statws a chofnodion pleidleisiau absennol yn gymwys i unrhyw etholiad a phob etholiad. Y cwestiwn i'r pleidleisiwr yn syml yw a ydynt eisiau pleidleisio drwy'r post neu ddirprwy ar ddiwrnod etholiad penodol, neu am gyfnod. Byddai'r dull yma yn symleiddio'r ddeddfwriaeth yn sylweddol ac yn osgoi'r anawsterau ymarferol a gafwyd o dan y gyfundrefn ddeddfwriaethol ddarniog bresennol.

#### **Argymhelliad 25.**

- 6.5 Dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi'r meini prawf ar gyfer hawl i bleidlais absennol. Dylai deddfwriaeth eilaidd gynnwys y gyfraith ar weinyddu statws rhai sydd yn pleidleisio drwy'r post.

### **Argymhelliad 26.**

- 6.6 Dylai'r gyfraith sydd yn llywodraethu pleidleisio absennol fod yn gymwys i bob maeth o etholiadau, ac ni ddylai ceisiadau i fod yn bleidleisiwr absennol allu bod yn ddewisol ar gyfer mathau penodol o etholiadau.

### **Argymhelliad 27.**

- 6.7 Dylai swyddogion cofrestru fod yn rhwymedig i benderfynu ar geisiadau mewn perthynas â phleidleisio absennol a sefydlu cofnod yn y gofrestr o statws pleidleisiwr absennol, y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu rhestrau pleidleisio absennol.

- 6.8 Ar hyn o bryd mae'n rhaid darparu "dynodwyr personol", a ddefnyddir i wirio dilysrwydd pleidleisiau drwy'r post, a hynny ar ffurf penodol, ond nid yw'r cais am bleidlais absennol ei hun wedi ei ragnodi. Rydym yn credu y byddai'n gyson â rhannau eraill o gyfraith etholiadol, ac ni fyddai'n newid sylweddol o'r sefyllfa bresennol, petai'n ofynnol i geisiadau am bleidlais absennol ddefnyddio ffurfiau a ragnodir mewn deddfwriaeth eilaidd, yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau sydd eu hangen neu sydd yn briodol o dan yr amgylchiadau.
- 6.9 Gall un o'r dynodwyr personol, sef llofnod, gael ei hepgor o dan y gyfraith bresennol. Ond, ni roddir unrhyw ganllawiau ynghylch sut y dylai'r swyddog cofrestru wneud penderfyniad i ganiatáu hepgoriad, sydd yn achosi risg o ymarfer anghyson. Rydym yn credu y dylai ceisiadau i hepgor y gofyniad am lofnod gael eu hardystio gan unigolion penodol, fel yn achos ceisiadau i fod yn ddirprwy ar hyn o bryd.
- 6.10 Yng Ngogledd Iwerddon mae cynllun arbennig yn bodoli, sydd erioed wedi cael ei ddefnyddio, er mwyn galluogi i bleidleiswyr penodol bleidleisio drwy ddefnyddio "gorsaf bleidleisio arbennig". Casglodd ein hadroddiad interim bod y ddeddfwriaeth yma yn ddiangen, ei bod mewn unrhyw achos yn anymarferol o ystyried datblygiadau diweddarach mewn cyfraith etholiadol, ac y dylid ei diddymu fel cam tacluso. Oherwydd nad yw Gogledd Iwerddon erbyn hyn yn perthyn i gwmpas y prosiect yma, nid ydym yn ailadrodd yr argymhelliad yma.

### **Argymhelliad 28.**

- 6.11 Dylai ceisiadau am bleidlais absennol gydymffurfio'n bendant â ffurfiau a ragnodir a nodir mewn deddfwriaeth eilaidd.

### **Argymhelliad 29.**

- 6.12 Dylai ceisiadau i hepgor y gofyniad i ddarparu llofnod fel dynodwr personol gael eu hardystio, fel yn achos ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar hyn o bryd.

- 6.13 Yn olaf, mae'r rheolau manwl sydd yn llywodraethu'r broses bleidleisio drwy'r post, a ddefnyddir er mwyn rhoi papurau pleidleisio i bleidleiswyr drwy'r post ac er mwyn bwrw pleidlais, yn gynwysedig mewn deddfwriaeth eilaidd. Rydym yn credu nad oes angen mwyach i ragnodi'r broses mewn manylder cam-wrth-gam sylweddol, a bod yna le i symleiddio'r rhain yn sylweddol drwy nodi pwerau a dyletswyddau swyddogion canlyniadau mewn perthynas â rhoi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post.

### **Argymhelliad 30.**

- 6.14 Dylai set o reolau unffurf lywodraethu'r broses bleidleisio drwy'r post ym Mhrydain Fawr.

### **Argymhelliad 31.**

- 6.15 Dylai'r set o reolau unffurf a ystyrir gan Argymhelliad 30 nodi cyfrifoldebau swyddogion canlyniadau mewn perthynas â rhoi, derbyn, ail roi a chanslo pleidleisiau drwy'r post yn gyffredinol yn hytrach na cheisio rhagnodi'r broses yn fanwl.

### **Delio â phleidleisiau drwy'r post yn ystod ymgyrch**

- 6.16 Nododd ein papur ymgynghori achos o blaid rheoleiddio dan y gyfraith, yn hytrach na chod ymddygiad gwirfoddol, ynghylch ymgyrchwyr etholiadol yn delio â cheisiadau wedi'u cwblhau gan etholwyr am bleidlais absennol a phleidleisiau drwy'r post. Mae'r bleidlais gyfrinachol yn darparu gwarchodaeth rhag twyll yng nghyd-destun pleidleisio'n bersonol, ond nid yw hynny ar gael ar gyfer pleidleisio drwy'r post. Mae canfyddiad y cyhoedd o dwyll yn niweidiol, a hefyd y risg o ddiraddio safonau gan ymgyrchwyr sydd yn tybio bod twyll gan wrthwynebwyr yn effeithiol, ac nad yw'n cael ei gosbi. Ar y llaw arall, rydym hefyd yn gallu gweld problemau ymarferol o ran diffinio pwy sydd yn ymgyrchydd a phwy sydd ddim, a gwerth mewn hyrwyddo cyfranogiad yn y bleidlais, y gall ymgyrchwyr ei wneud am ddim cost i'r pwrs cyhoeddus. Felly, gofynnwyd i'r cyhoedd a ddylai'r gyfraith reoleiddio cyfranogiad ymgyrchwyr mewn gweithgareddau penodol mewn perthynas â cheisiadau a gwblhawyd am bleidlais absennol a phleidlais drwy'r post.



- 6.17 Ar ôl ymgynghori, ac er gwaethaf cefnogaeth gref i'r egwyddor o reoleiddio dan y gyfraith mewn perthynas ag ymgyrchwyr yn delio â phapurau pleidleisio absennol, roedd gennym amheuon sylweddol, yn benodol ynghylch y gwrthwynebiadau canlynol:
- (1) byddai rheoleiddio yn troseddoli cymorth buddiol i'r pleidleiswyr hynny sydd ei angen, na fyddai ar gael fel arall;
  - (2) byddai rheoliadau yn anodd i'w gorfodi, a byddai achosion o'u torri yn anodd i'w datgelu - a byddai hynny yn datgymell ymgyrchwyr onest, ac ni fyddai'n atal y rhai anonest.
- 6.18 Nid oedd ein hadroddiad interim yn argymhell y dylai'r gyfraith reoleiddio ymgyrchwyr sydd yn delio â phleidleisiau drwy'r post, gan nodi mai mater i'r Llywodraeth a'r Senedd yw canfod y cydbwysedd rhwng mynediad i'r bleidlais a diogelu rhag twyll. Ers cyhoeddi ein adroddiad interim mae polisi'r Llywodraeth ar y mater hwn wedi datblygu. Yn ei adroddiad, *Securing the ballot: review into electoral fraud* argymhellodd Syr (Arglwydd erbyn hyn) Pickles y dylid gwahardd ymgyrchwyr rhag delio â phleidleisiau drwy'r post. Mae'r argymhelliad hwnnw wedi cael ei gymeradwyo gan Llywodraeth y DU, ac roedd yn rhan o Araith y Frenhines a roddwyd yn Rhagfyr 2019.

## Chapter 7: Hysbysiad o etholiad ac enwebiadau

- 7.1 Mae'r gyfraith mewn perthynas â cham cyntaf etholiad - o gyhoeddi hysbysiad o etholiad i gyhoeddi datganiad o'r unigolion a enwebir, sydd yn enwi'r ymgeiswyr yn derfynol - yn cael ei nodi mewn rheolau etholiadol arwahanol. Oherwydd hynny mae'n swmpus ac yn ddarniog ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Mae'r rheolau clasurol ar gyfer etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yn wahanol i raddau. Mae'r rheolau yma yn cael eu "trosi", ar brydiau yn anghyson, i etholiadau sydd yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau, pan fo *pleidiau* yn ymgeisio mewn etholiad. Mae yna ddyblygu a chymhlethdod sylweddol, yr ydym yn credu fyddai'n cael ei ddileu gan ddatganiad holistig, traws etholiadol o'r gyfraith sydd yn llywodraethu'r camau o hysbysu am etholiad i enwebiadau, gydag addasiadau cyson ar gyfer etholiadau rhestrau pleidiau. Bwriad sylfaenol ein hargymhellion yw sicrhau datganiad syml a chyffredinol o'r gyfraith sydd yn llywodraethu enwebiadau.

### Argymhelliad 32.

- 7.2 Dylai un set o bapurau enwebu, fydd yn deillio o'r ymgeisydd, ac a fydd yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol yn cynnwys eu henw a chyfeiriad, tanysgrifwyr os bydd angen hynny, aelodaeth ac awdurdodaeth gan blaid, ddisodli'r cymysgedd presennol a'r ffurflenni ac awdurdodaethau sydd eu hangen er mwyn enwebu ymgeisydd ar gyfer etholiad.

### Argymhelliad 33.

- 7.3 Dylid gallu danfon y papur enwebu â llaw, ac mewn unrhyw ffordd arall a ddarperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth eilaidd, allai gynnwys dulliau cyfathrebu electronig a thrwy'r post.

### Argymhelliad 34.

- 7.4 Dylai'r papur enwebu gael ei addasu ar gyfer etholiadau rhestrau pleidiau er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai pleidiau sydd yn ymgeisio; mae'n rhaid i swyddog enwebu'r blaid wneud yr enwebiad a dylai hynny gael ei ategu gan y caniatadau angenrheidiol gan yr ymgeiswyr ar y rhestr.

### Argymhelliad 35.

- 7.5 Pan fo'n ofynnol, dylai tanysgrifwyr gydsynio'n gyfreithiol ag enwebiad, nid papur, fel y gallent danysgrifio papur dilynol yn enwebu'r un ymgeisydd os bydd yr un cyntaf yn ddiffygiol.

- 7.6 Mae ein hargymhellion nesaf yn ymwneud â phŵer y swyddog canlyniadau i wrthod papurau enwebiadau. Yn gyffredinol mae'r swyddog wedi ei gyfyngu i archwilio dilysrwydd ffurfiol y papur enwebu: manylion neu danysgrifwyr diffygiol. Ond mae yna ddau eithriad: y cyntaf yw nad yw carcharorion yn gymwys i gael eu henwebu o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981, ac yn wahanol i bob diarddeliad arall, mae gan y swyddog canlyniadau bŵer i wrthod yr enwebiad ar sail hynny, ar ôl dilyn proses a ragnodwyd. Yn ymarferol, dim ond carcharorion ag enw drwg iawn sydd yn debygol o weld eu *henwebiad* yn cael ei wrthod. Rydym yn credu bod y pŵer yma yn anacroniaeth ac y dylid ei ddiddymu; wrth gwrs, bydd yr anghymhwysiad tanategol yn parhau.

### Argymhelliad 36.

- 7.7 Ni ddylai swyddogion canlyniadau mwyach ymchwilio i a gwrthod enwebiad ymgeisydd sydd yn garcharor. Ni fydd hynny yn effeithio ar yr anghymhwysiad parhaol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981.

- 7.8 Mae'r ail eithriad yn seiliedig yn bennaf ar gyfraith achos, ac mae'n gysylltiedig ag enwebiadau "ffug". Mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith achos ar y pwnc wedi cael ei oddiweddyd gan ddatblygiadau yn y gyfraith sydd yn llywodraethu cofrestru pleidiau a disgrifiadau pleidiau awdurdodedig yn ystod etholiadau. Ond, mae yna dal enghreifftiau o enwebiadau ffug allai godi: rhywun sydd yn sefyll o dan enw ffug sydd yn dynwared ymgeisydd gwirioneddol, megis ymgeisydd a newidiodd ei enw i Margaret Thatcher ac a ymgeisiodd mewn etholiad yn etholaeth y cyn Brif Weinidog, neu enwebu person ffug, megis yr enghraifft yn Aberdeen pan enwebwyd *mannequin* ar gyfer etholiad. Rydym yn credu ei bod yn ddymunol i ddeddfwriaeth roi arweiniad, yn seiliedig ar gyfraith achos bresennol, i swyddogion canlyniadau ynghylch sut mae delio â'r enghreifftiau yma.

### Argymhelliad 37.

- 7.9 Dylai swyddogion canlyniadau gael pwerau clir i wrthod enwebiadau sydd yn defnyddio enw ymgeisydd a ddyluniwyd i ddrysu neu gamarwain etholwyr neu i fod yn rhwystr i weithredu etholfraint, neu sydd yn anllad neu'n dramgwyddus.

## Chapter 8: Y broses bleidleisio

- 8.1 Mae rheolau etholiadol arwahanol hefyd yn rheoleiddio'r broses bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio. Yma eto mae ein gwaith diwygio yn canolbwyntio ar gynhyrchu datganiad cyffredinol o'r gyfraith sydd yn llywodraethu'r broses bleidleisio ym mhob etholiad, gan liflinio a symleiddio'r gyfraith. Ar hyn o bryd, mae'r rheolau etholiad-benodol yn amrywio, yn benodol pan fo etholiad yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau yn gyfan gwbl neu yn rhannol. Mae'r set gyntaf o argymhellion yn ymwneud â pharatoi a threfnu ar gyfer y diwrnod pleidleisio. Maent yn bennaf yn ymwneud ag ailddatgan yn dechnegol a symleiddio'r rheolau gaiff eu rhannu'n gyson ar draws pob digwyddiad etholiadol yn y DU.

### Argymhelliad 38.

- 8.2 Dylai un hysbysiad pleidleisio nodi diwedd yr enwebiadau a dechrau'r bleidlais, y mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ei gyfathrebu i ymgeiswyr a'i gyhoeddi.

### Argymhelliad 39.

- 8.3 Dylid defnyddio ffurfiau o gardiau pleidleisio a ragnodir ym mhob etholiad, yn cynnwys y rhai ar gyfer cynghorau plwyf a chymuned yng Nghymru a Lloegr, yn ddarostyngedig i ofyniad i gydymffurfio'n bendant â'r ffurf a ragnodwyd.

### Argymhelliad 40.

- 8.4 Dylai swyddogion canlyniadau fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd niwtralrwydd. Hefyd, ni ddylent benodi mewn unrhyw ffordd - yn cynnwys at ddibenion pleidleisio drwy'r post - unigolion sydd wedi ymwneud mewn unrhyw ffordd (yn lleol neu fel arall) â'r ymgyrch etholiadol dan sylw.

### Argymhelliad 41.

- 8.5 Dylai swyddogion canlyniadau gael pŵer i ddewis a rheoli safle a gynhelir gydag arian cyhoeddus ar gyfer pleidleisio, yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ddigolledu am gostau uniongyrchol darparu'r safle; gall deddfwriaeth eilaidd ategu'r diffiniad o safle a gynhelir gydag arian cyhoeddus.

#### **Argymhelliad 42.**

- 8.6 Dylai'r gyfraith ei gwneud yn benodol ofynnol i swyddogion canlyniadau ddarparu darnau penodol o offer hanfodol ar gyfer pleidlais, yn cynnwys papurau pleidleisio, blychau pleidleisio, cofrestrau a rhestrau allweddol. Ar gyfer y gweddill, dylai swyddogion canlyniadau ysgwyddo dyletswydd gyffredinol i ddarparu'r offer sydd ei angen ar orsafoedd pleidleisio er mwyn cynnal y bleidlais yn gyfreithiol ac effeithiol.

#### **Argymhelliad 43.**

- 8.7 Dylai'r weithdrefn a ddefnyddir er mwyn i swyddogion canlyniadau awdurdodi defnyddio grym gael ei diddymu, gan adael dim ond pŵer y swyddog llywyddu i roi cyfarwyddyd i heddwes waredu person o'r orsaf bleidleisio nad oes ganddo hawl i fod yno, neu sydd yn aflonyddu (cyn belled â'u bod wedi cael cyfle i bleidleisio, os oes ganddynt hawl i wneud hynny).

- 8.8 Mae'r set nesaf o argymhellion yn ymwneud â'r weithdrefn bleidleisio ei hun. Mae yna fân wahaniaethau mewn manylion ar draws etholiadau, ond yn gyffredinol mae'r rheolau yn unffurf ar draws pob etholiad. Rydym yn credu y dylai un set o reolau pleidleisio fod yn gymwys i bob etholiad, a'u bod wedi eu symleiddio fel eu bod ond yn rhagnodi elfennau hanfodol cynnal pleidlais gyfreithiol. Mae'r gyfraith bresennol yn cynnwys gofyniad i bleidleiswyr ddangos y marc adnabod unigryw ar eu papur pleidleisio i glercod pleidleisio, ac mae hynny yn deillio o bryderon hanesyddol sydd yn dyddio'n ôl i 1872 ynghylch twyll aneffeithlon a elwir yn "Ystryw Tasmanaid". Rydym yn credu y dylai hyn gael ei ddisodli gan bŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddangos y marc.

#### **Argymhelliad 44.**

- 8.9 Dylai un set o reolau pleidleisio fod yn gymwys i bob etholiad, yn ddarostyngedig i'r fframwaith datganoledig. Dylai'r rhain gael eu symleiddio a dylent ragnodi dim ond elfennau hanfodol cynnal pleidlais gyfreithlon, yn cynnwys: y pwerau i reoli a gwahardd mynediad, oriau pleidleisio, yr hawl i bleidleisio, y prosesau pleidleisio safonol, pleidlais gyda chymorth a phleidlais a gyflwynir, a sicrhau trywydd archwilio.

#### Argymhelliad 45.

8.10 Dylai rheolau pleidleisio nodi gofynion cyffredinol ar gyfer pleidlais gyfreithiol y mae'n rhaid i'r swyddogion canlyniadau a'u staff gydymffurfio â nhw, a nodi eu pwerau. Dylai'r rhain gynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr ddangos eu marc adnabod unigryw ar eu papurau pleidleisio i staff gorsaf bleidleisio.

8.11 Mae'r holl reolau etholiadol yn cynnwys cwestiynau manwl a ragnodir, ac sydd yn eithaf cymhleth mewn rhai achosion, y gall staff pleidleisio eu gofyn i bleidleiswyr os ydynt yn amau bod rhywbeth o'i le. Yn wreiddiol roedd y rhain yn rhagarweiniadau o lwon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ellid eu cymryd yn ddifrifol iawn, ac mewn unrhyw achos roeddent wedi eu hategu gan droseddau difrifol mewn perthynas â thorri llw. Nid yw hynny yn wir erbyn hyn, ac ar y gorau byddai'r cwestiynau efallai yn datgymell ymhonwyr posibl. Rydym yn credu nad oes achos mwyach dros nodi'r union gwestiynau, mewn ddeddfwriaeth sylfaenol, ddylid eu gofyn i bleidleiswyr.

#### Argymhelliad 46.

8.12 Dylai deddfwriaeth sylfaenol amlinellu hawliau clerod pleidleisio i ofyn cwestiynau i bleidleiswyr ynghylch eu hawl i bleidleisio. Dylai deddfwriaeth eilaidd ragnodi sut y dylai'r hawl gael ei weithredu, yn cynnwys y pwynt y dyluniwyd i'r cwestiwn ei ennyn.

8.13 Mae mynediad cyfartal i bleidleisio i bleidleiswyr ag anableddau yn bolisi pwysig. Mae hynny yn amlygu ei hun nid yn unig yn y weithdrefn bleidleisio â chymorth, ond hefyd o ran galluogi cymaint o etholwyr â phosibl i bleidleisio drwy ddefnyddio'r dull safonol, sydd yn gwneud y mwyaf o gyfrinachedd pleidleiswyr. Mae hynny yn cael ei wneud drwy sicrhau bod papurau pleidleisio sampl maint mawr ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, a drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparu dyfais bleidleisio drwy gyffwrdd sydd yn cynorthwyo i etholwyr dall ac sydd â nam ar y golwg bleidleisio.<sup>9</sup> Ond, mae'r disgrifiad o'r ddyfais yn cael ei ddisgrifio'n ormodol yn y rheolau ar gyfer rhai etholiadau. Rydym yn credu y dylid sefydlu un fformwleiddiad o nodweddion angenrheidiol y cyfleusterau fyddir yn eu defnyddio i helpu pleidleiswyr ag anableddau i bleidleisio heb gymorth, a gweithdrefn bleidleisio â chymorth wedi'i symleiddio.

8.14 Gall pleidleiswyr ag anableddau bleidleisio gyda chymorth cydymaith mewn gorsaf bleidleisio os byddant angen cymorth i fwrw eu pleidlais. Er mwyn bod yn gydymaith mae rhaid i'r person naill ai fod â hawl ei hun i bleidleisio yn yr etholiad, neu fod yn oedolyn sydd yn aelod o deulu (sydd yn golygu rhiant, brawd neu chwaer, cymar, partner sifil neu blentyn) y pleidleisiwr sydd angen cymorth. Rydym yn credu y dylai'r

<sup>9</sup> Yn ddiweddar mae'r Uchel Lys wedi canfod nad yw'r ddyfais bleidleisio drwy gyffwrdd yn cydymffurfio â gofynion Deddf 1983, oherwydd nad yw'n galluogi i bleidleisiwr bleidleisio "heb gymorth" (*Rachael Andrews v Gweinidog Swyddfa'r Cabinet* [2019] EWHC 1126 (Gweinyddol); [2019] 5 WLUK 28). Roedd araith y Frenhines yn Rhagfyr 2019 yn cynnwys ymrwymiad i'w gwneud yn haws i bleidleiswyr ag anableddau bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

rhestr o aelodau teulu gael ei ymestyn i gynnwys neiniau a theidiau, wyrion a wyresau sydd yn oedolion a chydbreswylwyr.

- 8.15 Rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi nodi ym mhapurau briffio cefndirol Araith y Frenhines yn Rhagfyr 2019 ei bod yn bwriadu caniatáu “ ystod ehangach o bobl (er enghraifft, gofalwyr na fyddai ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad)” i weithredu fel cydymaith i bleidleiswyr ag anableddau.
- 8.16 O dan y rheolau presennol, mae'n rhaid i'r pleidleisiwr a'r cydymaith wneud datganiad ffurfiol. Nid ydym yn credu bod y datganiad ffurfiol yn wiriad ystyrion rhag twyll; rydym yn credu bod hynny yn ddiangen ac mae'n golygu bod y broses yn rhy gymhleth i bleidleiswyr ag anableddau.

#### **Argymhelliad 47.**

- 8.17 Ni ddylai pleidleisio gyda chymorth cydymaith gynnwys datganiadau ysgrifenedig ffurfiol, ond dylai'r swyddog llywyddu ganiatáu hynny pan fo'n ymddangos na all pleidleisiwr bleidleisio heb gymorth. Rydym yn credu y dylai'r diffiniad o “aelod teulu” gael ei ymestyn i gynnwys neiniau a theidiau, wyrion a wyresau sydd yn oedolion a chydbreswylwyr.

#### **Argymhelliad 48.**

- 8.18 Dylid cael un fformwleiddiad o'r angen i'r swyddog canlyniadau ddarparu cyfleuster mewn pob gorsaf bleidleisio er mwyn cynorthwyo pleidleiswyr â nam ar y golwg bleidleisio.

#### **Marwolaeth ymgeisydd**

- 8.19 Mae rheolau etholiadol yn delio â dau fath o ddigwyddiad allai effeithio ar y bleidlais. Un ohonynt yw marwolaeth ymgeisydd ar ôl yr enwebiadau a chyn i'r bleidlais gau, allai arwain at ddiddymu'r bleidlais a galw un newydd. Mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng etholiadau seneddol ac etholiadau llywodraeth leol. Mewn etholiadau seneddol, mae gwahanol reolau yn gymwys yn ddibynnol ar a yw'r ymgeisydd ymadawedig yn aelod o blaid, neu a yw'n annibynnol: dim ond marwolaeth ymgeisydd ar ran plaid sydd yn arwain at ohirio'r bleidlais. Mae hynny yn adlewyrchu pwysigrwydd gwleidyddiaeth bleidiol yn yr etholiadau yma ac etholiadau deddfwriaethol eraill. Mae'r gyfraith hefyd yn delio'n anghyson â chwestiynau mewn etholiadau sydd yn defnyddio'r rhestrau pleidiau.
- 8.20 Rydym yn credu y dylid symleiddio'r gyfraith bresennol ynghylch marwolaeth, ond dylid ei chadw. Dylai un set o reolau lywodraethu etholiadau sydd yn defnyddio system rhestrau pleidiau, fel na ddylai marwolaeth ymgeisydd ar y rhestr atal y bleidlais rhag mynd yn ei blaen.

#### **Argymhelliad 49.**

- 8.21 Dylid cadw'r gwahaniaeth rhwng marwolaeth ymgeisydd ar ran plaid ac ymgeisydd annibynnol mewn perthynas ag etholiadau seneddol.

#### **Argymhelliad 50.**

- 8.22 Mewn etholiadau sydd yn defnyddio system bleidleisio rhestrau pleidiau, ni ddylai marwolaeth ymgeisydd annibynnol unigol effeithio ar y bleidlais oni bai bod ef neu hi yn ennill digon o bleidleisiau i'w ethol, ac yn yr achos hwnnw dylid ei drosglwyddo ef neu hi at ddibenion dyrannu'r sedd; ni ddylai marwolaeth ymgeisydd ar restr effeithio ar y bleidlais cyn belled ag y gellir enwi ymgeisydd arall ar ran y blaid dan sylw.

#### **Argymhelliad 51.**

- 8.23 Mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, dylai marwolaeth ymgeisydd annibynnol barhau i arwain at ddiddymu'r bleidlais.

#### **Achosion brys**

- 8.24 Y math arall o ddigwyddiad yn y gyfraith bresennol yw terfysg a thrais agored, ac mae'n rhaid i hynny arwain swyddogion llywyddu i ohirio'r bleidlais tan y diwrnod canlynol. Rydym yn credu nad yw hynny yn dderbyniol: gyda dulliau cyfathrebu modern, dylai fod yn ofynnol i swyddog canlyniadau, nid y swyddog llywyddu, benderfynu a yw'r amodau mewn gorsaf bleidleisio yn anniogel. Hefyd, nid terfysg yn unig yw'r unig ddigwyddiad posibl allai effeithio ar y bleidlais. Mae pŵer mwy cyffredinol er mwyn delio ag achosion brys sydd yn amharu neu sydd yn effeithio ar y bleidlais yn ddymunol, fel sydd yn bodoli mewn awdurdodaethau eraill megis Awstralia a Chanada. Rydym yn ystyried mai'r prawf ar gyfer defnyddio pŵer o'r fath yw pan effeithir ar gyfran sylweddol o'r etholwyr; y swyddog canlyniadau ddylai gael y pŵer hwnnw, yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan y Comisiwn Etholiadol yn achos anghydfodau cenedlaethol.

#### **Argymhelliad 52.**

- 8.25 Dylid diddymu'r rheol bresennol sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu ohirio'r bleidlais mewn achosion o derfysg neu drais agored.



### **Argymhelliad 53.**

- 8.26 Dylai swyddogion canlyniadau gael pŵer fel y dewis olaf er mwyn newid y ffordd o gymhwyso cyfraith etholiadol er mwyn atal neu liniaru yn erbyn rhwystr neu effaith ar bleidlais o ganlyniad i achos brys fydd yn effeithio ar gyfran sylweddol o etholwyr yn eu hardal.

### **Argymhelliad 54.**

- 8.27 Os bydd digwyddiad yn effeithio ar gyfran arwyddocaol o'r DU yn ystod etholiad fydd yn cael ei chynnal mewn mwy nag un ardal etholiadol, dylid defnyddio'r pŵer uchod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan y Comisiwn Etholiadol.

## Chapter 9: Cyfrif pleidleisiau a datgan y canlyniadau

- 9.1 Yn wahanol i feysydd eraill y gyfraith, nid yw'r rheolau etholiadol clasurol sydd yn llywodraethu'r cyfrif yn helaeth. Mae chwe rheol etholiadol yn delio â logisteg ac amseru'r cyfrif, sydd yn gwneud darpariaethau ar gyfer: y cyfrif i ddechrau cyn gynted ag sydd yn ymarferol, a nodi pŵer i rewi'r cyfrif dros nos; pwy all fod yn bresennol (yn benodol, yn achos asiantau cyfrif a benodir gan ymgeiswyr er mwyn craffu ar y cyfrif); y gofyniad i wirio'r papurau pleidleisio a dderbynnir o orsaf bleidleisio yn erbyn nifer y papurau pleidleisio a ddyrannir iddi; y seiliau ar gyfer gwrthod papurau pleidleisio; a'r broses o benderfynu ar a datgan y canlyniad.
- 9.2 Er hynny, mae'r rheolau yma yn cael eu hefelychu yn y ddeddfwriaeth arwahanol sydd yn llywodraethu pob etholiad. Yn achos etholiadau sydd yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau, mae anhawster yn codi o ran trosi mewn perthynas â phwy all fynychu'r cyfrif a phenodi asiantau cyfrif. Er bod rhai gwahaniaethau yn deillio o bolisi, mae'n ymddangos bod llawer yn ganlyniad i wahanol ddulliau drafftio.
- 9.3 Mae ein hargymhellion wedi eu hanelu at un datganiad safonol o'r gyfraith sydd yn llywodraethu'r cyfrif, gydag ymagwedd gyson tuag at y gwahaniaethau sydd eu hangen ar gyfer defnyddio'r system bleidleisio rhestrau pleidiau.

### **Argymhelliad 55.**

- 9.4 Dylai un set safonol o reolau mewn deddfwriaeth sylfaenol lywodraethu'r cyfrif ym mhob etholiad.

### **Argymhelliad 56.**

- 9.5 Dylai'r rheolau cyfrif safonol ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau rhwng etholiadau mewn perthynas â'u systemau pleidleisio a sut y rheolir y cyfrif.

### **Argymhelliad 57.**

- 9.6 Dylai'r rheolau roi pŵer i swyddogion canlyniadau benderfynu ar yr amser cynharaf y gellir dechrau cyfrif yn ymarferol, ac i rewi dros nos, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i aildechrau cyfrif mewn etholiadau Seneddol y DU o fewn pedair awr.

### **Argymhelliad 58.**

- 9.7 Dylai'r rheolau nodi y gall ymgeiswyr gael eu cynrychioli yn y cyfrif gan eu hasiantau etholiadol neu asiantau cyfrif, a ddylai allu craffu ar y cyfrif yn y ffordd y mae'r gyfraith yn ystyried hynny ar hyn o bryd. Mewn etholiadau rhestrau pleidiau, gall pleidiau benodi asiantau cyfrif. Dylai asiantau etholiad ac asiantau cyfrif allu gweithredu ar ran ymgeisydd yn y cyfrif, ond pan mai dim ond yr ymgeisydd all ofyn am ailgyfrif, gellir awdurdodi asiant etholiad neu asiant cyfrif i wneud hynny yn benodol yn absenoldeb yr ymgeisydd neu asiant etholiad.

- 9.8 Yn achos etholiadau sydd yn defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ("SVT") - etholiadau llywodraeth leol yn Yr Alban ac etholiadau yng Ngogledd Iwerddon, ac eithrio'r rhai i Senedd y DU - mae ymagwedd y gyfraith yn eithaf gwahanol. Mae'r rheolau cyfrif yn fanwl iawn oherwydd bod STV ei hun yn system bleidleisio fanwl. Felly mae angen ymdriniaeth ar wahân mewn gyfraith etholiadol ar gyfer STV.

### **Argymhelliad 59.**

- 9.9 Dylai'r rheolau safonol mewn deddfwriaeth sylfaenol fod yn gymwys i gyfrif STV cyn belled â'u bod yn gymwys; dylai'r weithdrefn fanwl ar gyfer cynnal cyfrif STV fod mewn deddfwriaeth eilaidd.
- 9.10 Mae ein set olaf o argymhellion yn delio â chyfrif electronig. Mae dau fath o etholiadau yn cael eu cyfrif yn electronig: Etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf ac etholiadau llywodraeth leol Yr Alban. Ond, mae'r rheolau etholiadol ar gyfer y ddwy yn defnyddio ymagwedd wahanol. Mae rheolau etholiadau GLA wedi eu hysgrifennu gydag ystyriaeth i gyfrif electronig. Mae rheolau etholiadau llywodraeth leol Yr Alban wedi eu hysgrifennu yn symlach, gyda darpariaeth gyffredinol yn galluogi i'r swyddog canlyniadau gyfrif yn electronig.
- 9.11 Rydym yn credu y dylai'r set safonol o reolau cyfrif ar gyfer etholiadau, er eu bod yn gymwys i gyfrif â llaw, gael eu hysgrifennu mor dechnolegol niwtral â phosibl. Dylai un is-set o reolau safonol wneud darpariaeth ychwanegol sydd yn llywodraethu cyfrif electronig. Deddfwriaeth eilaidd ddylai benderfynu pa etholiadau sydd yn destun cyfrif electronig.
- 9.12 Fel yn achos cyfrif â llaw, mae yna angen yng nghyd-destun cyfrif electronig am ddarpariaeth er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ymddiriedaeth yn y system cyfrif electronig. Dylai hynny hefyd gael ei nodi mewn deddfwriaeth eilaidd.

### **Argymhelliad 60.**

- 9.13 Dylai set safonol o reolau cyfrif ac is-set o reolau ar gyfer cyfrif electronig fod yn gymwys i bob etholiad. Deddfwriaeth eilaidd ddylai benderfynu pa etholiadau sydd yn destun cyfrif electronig.

### **Argymhelliad 61.**

- 9.14 Hefyd mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth eilaidd uchod wneud darpariaeth hefyd fydd yn sicrhau digon o graffu gan bleidiau gwleidyddol a'r Comisiwn Etholiadol, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ddangos y system gyfrif electronig iddynt ymlaen llaw a/neu ardystio'r system honno gan gorff a ragnodir.

## Chapter 10: Amserlenni a chyfuniad o bleidleisiau

- 10.1 Mae pennod 10 yn ystyried yr amserlen yn unol â pha etholiadau a gynhelir, yn ogystal â'r gyfraith sydd yn llywodraethu gweinyddu etholiadau sydd yn digwydd ar yr un pryd - y cyfeirir atynt fel "cyfuniad o bleidleisiau".

### Amserlenni etholiadol

- 10.2 Mae pob set o reolau etholiad yn cynnwys amserlen gweinyddol. Mae'r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o'r camau y mae rheolau etholiad yn ymdrin â nhw, o hysbysu i enwebu, ac yn diweddu gyda diwrnod y bleidlais. Nid ydynt yn cynnwys terfynau amser ar gyfer pleidleisio absennol neu gofrestru, yr ymdrinnir â nhw mewn manau eraill yn y ddeddfwriaeth etholiadol.
- 10.3 Yn gyffredinol, mae'r hyn a elwir gennym yn "reol mynychder" yn penderfynu pryd fydd diwrnod y bleidlais. Yna bydd yr amserlen ddeddfwriaethol yn cyfrifo'r amserlen drwy gyfrif yn ôl o ddiwrnod y bleidlais. Yn yr achos hwnnw, mae'n amserlen gwbl weinyddol.
- 10.4 Yr eithriad yw amserlen etholiad Seneddol y DU, sydd yn hanesyddol yn amserlen weinyddol ac yn rheol mynychder. Mae'r cam cyntaf yn yr amserlen - diddymu'r Senedd (ar gyfer etholiadau cyffredinol) neu warant ar gyfer writ is-etholiad (ar gyfer isetholiadau) - yn penderfynu pryd fydd diwrnod y bleidlais. Ar gyfer etholiadau cyffredinol mae hynny erbyn hyn yn cael ei wneud drwy gyfeirio at Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011 (neu yn achos etholiad Seneddol y DU yn 2019, Deddf Etholiad Cyffredinol Seneddol Cynnar 2019). Ar gyfer isetholiadau, mae'r amserlen ddeddfwriaethol gymhleth yn cael ei threfnu fel y gall y swyddog canlyniadau ddewis dydd lau sydd yn disgyn ar ddyddiau 23 i 27 ar ôl cyhoeddi'r warant ar gyfer isetholiad. Mae'r amserlen yn parhau i fod yn un weinyddol ac yn rheol mynychder.
- 10.5 Rydym yn credu y dylai'r datganiad cyfreithiol ynghylch amserlen etholiad Seneddol y DU gael ei ail ogwyddo fel bod yr amserlen yn cyfri'n ôl o ddiwrnod y bleidlais (a nodir gan Ddeddf 2011). Ar gyfer isetholiadau, dylid ymddeddfu rheol mynychder ar wahân sydd yn adlewyrchu'r gyfraith bresennol, ac eithrio y dylai nodi'n bendant bod y diwrnod pleidleisio ar y dydd lau olaf fydd yn disgyn rhwng dyddiau 26 a 30 ar ôl cyhoeddi'r warant ar gyfer writ is-etholiad (yn seiliedig ar amserlen 28 diwrnod, a gweler isod am fwy o wybodaeth am hynny). Dylid gallu cyfathrebu'r writ yn electronig.

### Argymhelliad 62.

- 10.6 Dylai amserlen etholiad Seneddol y DU gael ei ogwyddo fel bod y camau ynddo yn cael eu cyfrif yn ôl o'r diwrnod pleidleisio.

### **Argymhelliad 63.**

- 10.7 Dylai rheol ar wahân nodi bod diwrnod pleidleisio mewn isetholiadau ar y dydd lau olaf sydd yn disgyn rhwng diwrnod 26 a 30 ar ôl cyhoeddi'r warant ar gyfer writ isetholiad.

### **Argymhelliad 64.**

- 10.8 Dylid gallu cyfathrebu'r writ yn electronig yn ogystal â'i danfon yn bersonol.

- 10.9 Mae'r uchod yn seiliedig ar amserlen 28 diwrnod. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o etholiadau yn defnyddio amserlen 25 diwrnod. Mae etholiadau GLA yn cael eu cynnal yn ôl amserlen 30 diwrnod er mwyn caniatáu ar gyfer cynhyrchu llyfryn sydd yn cynnwys cyfeiriadau ymgeiswyr Maerol, tra bod etholiadau seneddol a llywodraeth leol Yr Alban yn cael eu cynnal yn ôl amserlen 28 i 35 diwrnod.

- 10.10 Rydym yn credu y dylai amserlen safonol lywodraethu pob etholiad yn y DU. Yn ein papur ymgynghori roeddem yn gallu gweld dwy opsiwn ar gyfer safoni sydd yn effeithio leiaf ar y trefniadau presennol: amserlen 25 diwrnod ac amserlen 28 diwrnod. Yr opsiwn gyntaf sydd yn effeithio ar y nifer lleiaf o amserlenni etholiadau. Mae'r ail yn caniatáu mwy o amser i bob etholiad, tra'n cadw'r amserlenni presennol ar gyfer cynhyrchu llyfryn ar gyfer etholiadau GLA. Byddai hynny hefyd ond yn effeithio ychydig ar etholiadau yn Yr Alban yn unig.

- 10.11 Rydym yn argymhell yr ail opsiwn ar gyfer amserlen safonol. Dylid nodi amserlen 28 diwrnod mewn deddfwriaeth, a dylai gynnwys y cerrig milltir allweddol ar gyfer gweinyddu etholiadol ym mhob etholiad.

### **Argymhelliad 65.**

- 10.12 Dylai amserlen deddfwriaethol safonol fod yn gymwys i bob etholiad yn y DU, fydd yn cynnwys y cerrig milltir allweddol o ran gweinyddiaeth etholiadol, yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cofrestru a phleidleisio absennol.

### **Argymhelliad 66.**

- 10.13 Dylai'r amserlen deddfwriaethol safonol ar gyfer pob etholiad yn y DU fod yn 28 diwrnod.

## Cyfuniad o bleidleisiau

10.14 Mae'r gyfraith sydd yn llywodraethu "cyfuniad o bleidleisiau" yn eithriadol o gymhleth. Yr allwedd i ddeall y pwnc yw gwahaniaethu rhwng dyddiau pleidleisio mewn etholiadau sydd yn *cyd-ddigwydd*, ac a ddylid cynnal y pleidleisiau sydd yn *cyd-ddigwydd* gyda'i gilydd, neu eu "cyfuno" yn weinyddol - mae "cyfuno pleidleisiau" yn cyfeirio at yr olaf yn unig, nid y cyntaf. Felly, os dywedir bod cyfuno dwy bleidlais yn cael ei wahardd o dan y gyfraith bresennol, mae'n bwysig nodi y bydd y ddwy bleidlais yn dal i fynd yn eu blaenau, ar yr un diwrnod, gyda'r un pleidleiswyr.

10.15 Mae'r gyfraith bresennol yn gymhleth iawn. I amlinellu:

- (1) Mae pob etholiad yn cael ei chynnal gan ei swyddog canlyniadau yn unol â'i rheolau etholiad.
- (2) Mae rheolau mynychder yn llywodraethu pryd y dylai etholiadau ddigwydd. Drwy gymhwyso hynny, bydd etholiadau ar brydiau yn *cyd-ddigwydd*, sydd yn golygu y bydd y pleidleisio yn digwydd ar yr un diwrnod.
- (3) Mae'r maes cyfraith a elwir yn "gyfuniad o bleidleisiau", o'i ddeall yn iawn, yn delio â'r amgylchiadau canlynol:
  - (a) dwy neu ragor o etholiadau yn *cyd-ddigwydd* yn yr un ardal a
  - (b) heb fwy, mae'n rhaid i bob swyddog canlyniadau gynnal pob pleidlais yn unol â rheolau yr etholiadau eu hunain.

10.16 Mae'r gyfraith mewn perthynas â chyfuniad o bleidleisiau yn ystyried tri mater penodol:

- (1) Y posibilrwydd o gyfuno pleidleisiau penodol: mae'n rhaid cyfuno rhai a gellir cyfuno rhai eraill. Ar gyfer eraill, ni ddwedir dim am gyfuno, sydd yn golygu na ellir cyfuno - y sefyllfa ragosodedig yw'r un a ddisgrifir yn (3)(b) uchod.
- (2) Y mater rheoli: pan gyfunir pleidleisiau, pa un o'r swyddogion canlyniadau ar gyfer yr etholiadau cyfun sydd yn cymryd y rôl arweiniol, a pha swyddogaethau.
- (3) Mater rheolau cynnal cyfuniad: pan gyfunir pleidleisiau, p'un ai'r swyddog canlyniadau arweiniol neu'r swyddog canlyniadau arall sydd yn cyflawni swyddogaeth benodol mewn perthynas â'r bleidlais,<sup>10</sup> pa addasiadau i reolau etholiad arferol a wneir er mwyn delio â'r ffaith bod y pleidleisiau wedi'u cyfuno.

10.17 Mae'r ateb i'r cwestiynau yma yn cael ei roi mewn arae cymhleth o ddarpariaethau etholiad-benodol, sydd yn anodd i weinyddwyr etholiadol lywio drwyddynt. Felly, ein hargymhelliad o ran diwygio yw y dylai'r gyfraith sydd yn llywodraethu cyfuniad o bleidleisiau sydd yn *cyd-ddigwydd* fod mewn un set o reolau. Y sefyllfa ragosodedig ddylai fodoli yw bod raid cyfuno unrhyw bleidleisiau sydd yn *cyd-ddigwydd*, sydd yn golygu bod raid i'r rheolau cynnal fynd i'r afael â'r ffaith eu bod yn *cyd-ddigwydd* ac na ellir anwybyddu hynny. Dylai un set o addasiadau ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo pleidlais yn cynnwys nifer o bapurau pleidleisio. Yn olaf, os bydd pedair neu ragor o

---

<sup>10</sup> Gweler uchod ym mharagraff 3.14.

bleidleisiau yn cyd-ddigwydd, dylai'r swyddog canlyniadau gael y pŵer, y gellir ei ddefnyddio yn unol â deddfwriaeth eilaidd, i ohirio un o'r pleidleisiau.

**Argymhelliad 67.**

10.18 Dylai'r gyfraith sydd yn llywodraethu cyfuniad o bleidleisiau sydd yn cyd-ddigwydd fod mewn set unffurf o reolau ar gyfer pob etholiad.

**Argymhelliad 68.**

10.19 Mae'n rhaid i unrhyw etholiadau sydd yn cyd-ddigwydd yn yr un ardal ar yr un diwrnod gael eu cyfuno.

**Argymhelliad 69.**

10.20 Os bydd pedair neu ragor o etholiadau yn cyd-ddigwydd, dylai'r swyddog canlyniadau gael pŵer i ohirio pleidlais os bydd ef neu hi yn casglu na ellir gweinyddu'r pleidleisiau yn briodol ar yr un diwrnod. Ni ddylai'r pŵer yma fod yn gymwys i etholiadau cyffredinol neu arferol, na refferenda cenedlaethol. Dylid defnyddio'r pŵer yn unol â deddfwriaeth eilaidd.

**Argymhelliad 70.**

10.21 Dylai'r swyddog canlyniadau arweiniol, ynghyd â'i swyddogaethau, gael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth eilaidd sydd yn nodi hierarchaeth swyddogion canlyniadau, y swyddogaethau mae'n rhaid iddynt eu cyflawni, a'r swyddogaethau y gellir eu rhoi iddynt drwy gytundeb.

**Argymhelliad 71.**

10.22 Dylai set unedig o addasiadau ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo pleidlais yn cynnwys nifer o bapurau pleidleisio.



## Chapter 11: Troseddau etholiadol

- 11.1 Mae'r bennod hon yn ymwneud â throseddau sydd yn gymwys i etholiadau yn unig. Ers cyhoeddi ein adroddiad interim bu nifer o ddatblygiadau yn y maes yma, sydd wedi eu hysgogi yn bennaf gan bryder cynyddol am fygwth pobl yn ystod etholiadau, a'r ffordd y mae troseddau presennol yn rhyngweithio â thechnegau ymgyrchu digidol newydd. Maent yn cynnwys adroddiadau gan Syr (Arglwydd erbyn hyn) Pickles,<sup>11</sup> y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (CSPL) ar fygwth,<sup>12</sup> ac ymgyngoriad dilynol y Llywodraeth ar Fygwth,<sup>13</sup> Dylanwad a Gwybodaeth, a'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol.<sup>14</sup> Mae pob un yn cynnig argymhellion ynghylch y troseddau y dylai reoleiddio etholiadau. Mae pob un yn dangos consensws cynyddol bod angen diweddarau ac egluro'r troseddau etholiadol presennol.
- 11.2 Mae'r troseddau hynny a ddsberthir fel rhai llwgr neu arferion anghyfreithlon, hefyd yn sail i annilysu etholiad, ac mae eu cyflawni yn anghymhwysu unigolyn rhag sefyll etholiad am gyfnod o 3 neu 5 mlynedd. Mae'n bwysig bod y troseddau yma yn cael eu drafftio yn glir fel eu bod yn cael eu deall gan gyfranogwyr yn y broses etholiadol, y mae'n rhaid iddynt addasu eu hymddygiad yn unol â nhw. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn cael eu gorfodi a'u herlyn, er mwyn canfod ac atal twyll etholiadol.
- 11.3 Ond mae nifer o'r troseddau hyn wedi cael eu drafftio'n anrhyloyw oherwydd eu bod yn dyddio'n ôl i 1883 neu hyd yn oed cyn hynny. Hefyd, mae'r troseddau a nodir yn Neddf 1983 yn cael eu hailadrodd mewn deddfwriaeth etholiad-benodol.
- 11.4 Mae Pennod 11 yn ystyried yn benodol y troseddau hyn neu "glasurol". Rydym yn credu y dylai set unffurf o droseddau etholiadol gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd yn gymwys i bob etholiad. Dylid symleiddio eu natur gymhleth neu hynafol. Mae'r rhan fwyaf o'n hargymhellion yn deillio o'r amcanion yma.

### Argymhelliad 72.

- 11.5 Dylai set unffurf o droseddau etholiadol gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol a ddylai fod yn gymwys i bob etholiad.

<sup>11</sup> Syr Eric Pickles, *Securing the ballot: review into electoral fraud* (Awst 2016) p 45.

<sup>12</sup> Report of the Committee on Standards in Public Life on Intimidation in public life (Rhagfyr 2017) Cm 9543.

<sup>13</sup> Swyddfa'r Cabinet, *Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information* (Gorffennaf 2018) and *Response to Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information* (Mai 2019).

<sup>14</sup> Electoral law: the urgent need for review, Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (2017-19) HC t 5.

### **Argymhelliad 73.**

- 11.6 Dylai trosedd llwgr wobrwyo gael ei symleiddio, gan nodi ei helpen feddyliol fel bwriad i gaffael neu atal bwrw pleidlais mewn etholiad.

### **Argymhelliad 74.**

- 11.7 Dylai'r drosedd etholiadol o dretio gael ei diddymu, a dylai'r ymddygiad y mae'n ei gyfleu, pan fo'n briodol, gael ei erlyn fel llwgr wobrwyo.

### **Argymhelliad 78.**

- 11.8 Dylai'r ymarfer anghyfreithlon o aflonyddu ar gyfarfodydd etholiadol fod yn gymwys i ymgeiswyr yn unig a'r rhai sydd yn eu cefnogi, ac ni ddylai mwyach fod yn seiliedig ar "gyfreithlondeb" y cyfarfod.

### **Argymhelliad 79.**

- 11.9 Ni ddylai'r drosedd o nodi'n gamarweiniol bod ymgeisydd arall wedi tynnu'n ôl gael ei chadw; pan fo datganiad o'r fath yn argyhoeddi pleidleiswyr bod ymgeisydd wedi tynnu'n ôl, dylai hynny fod yn gyfystyr â dylanwad gormodol drwy dwyll.

- 11.10 Rydym yn ystyried yr ymarfer llwgr o ddylanwad gormodol mewn manylder sylweddol ym mhennod 11 yr adroddiad terfynol. Mae adran 115 Deddf 1983 yn llunio'r drosedd yn eang, ac mae'n cynnwys yr ymddygiad canlynol:

- (1) Pwysau a gorfodaeth: mae'n cynnwys unrhyw fath o fygwth, p'un a bod hynny yn cynnwys trais corfforol neu fygwth hynny, neu unrhyw fygwthiad arall i orfodi.
- (2) Twyll: mae'n cynnwys dyfeisiau neu ystrywiau megis cyhoeddi dogfen ffug a honnir sydd yn rhan o ymgyrch gwrthwynebydd.

- 11.11 Camwri arall sydd yn gynwysedig o dan drosedd dylanwad gormodol yw bygwth anaf "ysbrydol", a ystyriwyd yn fwyaf diweddar gan y Comisiynydd Mawrey CF yn *Erlam & Ors v Rahman & Anor* [2015] EWHC 1215 (QB). Yn yr achos hwnnw, dyfarnwyd bod llythyr gan glerigwr a gyhoeddwyd mewn papur lleol Bengalaidd, gyda chylchrediad darllenwyr o tua 20,000, wedi croesi'r llinell i "gamddefnyddio crefydd" at ddibenion crefyddol.

- 11.12 Ond, mae'n anodd iawn mynegi'r llinell rhwng pwysau "priodol" ac "amhriodol". Mae pleidleiswyr yn wynebu pob math o bwysau yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Nid yw'r

ymddygiad sydd yn droseddol mewn perthynas â dylanwad gormodol, na'r elfen feddyliol ategol, wedi eu nodi yn glir. Rydym yn credu y dylai'r drosedd gael ei hailddrafftio a'i moderneiddio fel y bydd yn ddealladwy i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, i swyddogion yr heddlu y gelwir arnynt i ymchwilio i gwynion, i erlynwyr y mae'n rhaid iddynt benderfynu erlyn neu beidio, ac i'r llysoedd. Yr allwedd i wahaniaethu rhwng defnyddio pwysau priodol ac amhriodol yw p'un a yw'r pwysau yn cynnwys cyflawni gweithred anghyfreithiol (megis trosedd neu ddadfeddiant ar gam), neu ddefnyddio pwysau y byddai person rhesymol yn ei ystyried fel ymyrraeth amhriodol ar ryddid i ddefnyddio'r etholfraint.

- 11.13 Ym mhennod 11 rydym yn ystyried yn fanwl a ddylai dylanwad gormodol gynnwys cyfeiriad penodol at "anaf ysbrydol". Wrth ymateb i adroddiad Syr Eric Pickles, mynegodd y Llywodraeth safbwynt y "dylid cynnal y drosedd o ymyrraeth ysbrydol". Rydym yn cytuno y gall arweinwyr crefyddol ddylanwadu'n ormodol ar unigolion; ond nid ydym wedi'n argyhoeddi bod lefel y dylanwad gan arweinwyr crefyddol yn unigryw. Rydym yn credu y gall arweinwyr carismataidd ar grwpiau o amrywiol fathau wneud yr un modd. Rydym yn credu mai'r ffordd orau o wahardd pwysau gormodol yw canolbwyntio'r sylw ar y math o bwysau a ddefnyddir yn hytrach na natur y berthynas a ddefnyddir i roi pwysau gormodol.
- 11.14 Rydym yn glynu at ein safbwynt a fynegir yn ein hadroddiad interim, sef y byddai'n amhosibl dyfeisio catalog cynhwysfawr o berthnasod o'r fath, ac yn ofni y byddai cyfeirio at un math penodol o berthynas mewn statud yn arwain at botensial i greu dryswch wrth gymhwyso'r ddarpariaeth. Er y byddai'r drosedd a ailddrafftir yn cynnwys ymddygiad a gategoreiddir nawr fel bygythiadau neu anaf ysbrydol, rydym yn dal i gredu bod cyfeiriad penodol at anaf ysbrydol yn ddiangen.

#### **Argymhelliad 75.**

11.15 Dylid ailddatgan dylanwad gormodol fel troseddau bygwth, twyll a phwysau amhriodol. Mae pwysau yn amhriodol os:

- (a) yw'n cynnwys cyflawni neu fgythyad i gyflawni gweithred anghyfreithlon; neu
- (b) byddai person rhesymol yn ystyried bod hynny yn ymyrryd yn amhriodol ar ryddid i ddefnyddio'r etholfraint.

#### **Argymhelliad 76.**

11.16 Yng Nghymru a Lloegr dim ond y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ddylai erlyn troseddau yn unol ag Argymhelliad 75, neu drwy ganiatâd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

- 11.17 Argymhelliad arall nad yw'n gysylltiedig â'n nod o resymoli a symleiddio yw'r un sydd yn gysylltiedig â "throsedd argraffnod" o dan adran 110 Deddf 1983. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chynnwys mewn dogfen argraffedig neu hysbysiad mewn papur newydd, fanylion megis enw a chyfeiriad yr argraffydd, a achosodd i'r hysbyseb gael ei gyhoeddi, ac enw'r person y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar ei ran (yn ymarferol, yr ymgeisydd).
- 11.18 Roedd ein papur ymgynghori yn gofyn a oedd y ddarpariaeth bresennol ynghylch argraffnodi deunydd ar-lein yn adran 110 yn ddigonol, neu a oedd yn ddymunol ac yn ddichonadwy i argymell rheoleiddio deunydd ar-lein. Yng ngoleuni'r ymateb i'n cwestiwn, rydym yn argymell y dylai'r drosedd argraffnod gael ei hymestyn er mwyn cynnwys deunydd ar-lein y gellir yn rhesymol ei ystyried fel bwriad i gaffael neu hyrwyddo canlyniad penodol. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r troseddau fod yn destun amddiffyniad ymarferoldeb rhesymol.
- 11.19 O ystyried natur esblygol parhaus technoleg a'r trafodaethau canlyniadol ynghylch rheoleiddio, nid yw'n syndod bod y maes yma wedi datblygu ers cyhoeddi ein hadroddiad interim. Yn 2019 rhoddodd y Comisiwn Etholiadol dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad ar Fil Refferenda (Yr Alban) (erbyn hyn Deddf Refferenda (Yr Alban) 2020). Yn dilyn ei waith gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol, mynegodd y Comisiwn y safbwynt ei bod "yn gwbl ymarferol bod yna wybodaeth argraffnod mewn pob math o ymgyrchu digidol".
- 11.20 Yn dilyn hynny tynnwyd yr amddiffyniad ymarferoldeb rhesymol allan o'r Bil. O ystyried y profiad cynyddol o reoleiddio etholiadau, nid ydym mwyach yn benodol yn argymell amddiffyniad ymarferoldeb rhesymol; rydym yn credu mai lle y Llywodraeth yw gweithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu'r polisi priodol mewn perthynas â hyn. Gallai'r polisi gynnwys eithriad ar gyfer datganiadau o safbwynt personol gan unigolion sydd yn gweithredu yn anfasnachol; nid ydym yn mynegi unrhyw safbwynt ar hynny. Rydym yn nodi bod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn datblygu cynigion technegol ar gyfer cyfundrefn argraffnod digidol ar gyfer deunydd etholiad digidol.

#### **Argymhelliad 77.**

- 11.21 Dylai'r gofyniad mewn perthynas ag argraffnod gael ei ymestyn i ddeunydd ymgyrchu ar-lein y gellid yn rhesymol ei ystyried fel bwriad i gaffael neu hyrwyddo canlyniad penodol.
- 11.22 Yn olaf, mae pennod 11 yn nodi y gall troseddau etholiadol ond arwain at uchafswm dedfryd o 2 flynedd o garchar. Mae hynny wedi arwain at newid mewn perthynas ag erlyn yng Nghymru a Lloegr at drosedd cynllwynio i dwyllo, sydd yn gallu arwain at uchafswm o ddeng mlynedd o garchar, ac mae hynny wedi arwain at ddedfrydau llymach. Efallai bod yna lai o brofiad ymarferol o'r drosedd honno yn Yr Alban mewn cyd-destun etholiadol, ac efallai y tybir bod yna anawsterau tystiolaethol a chysyniadol o ran profi'r drosedd yng nghyfreithiau'r Alban.

11.23 Gofynnodd ein papur ymgynghori i'r ymgynghoreion a ddylai dedfryd wedi ei chynyddu i ddeng mlynedd o garchar fod ar gael mewn achosion o dwyll etholiadol difrifol, fel dewis amgen i gynllwynio i dwyllo. Mae "twyll etholiadol difrifol" yn cyfeirio'n gyffredinol at droseddau etholiadol difrifol, megis arferion llwgr, yn cynnwys y troseddau mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post a dirprwy sydd yn gynwysedig yn adran 62A Deddf 1983. Nid ydym yn ystyried bod angen defnyddio'r term hwnnw mewn deddfwriaeth. Rydym yn cynnig y dylai'r uchafswm dedfryd ar gyfer y troseddau dan sylw gael ei gynyddu i ddeng mlynedd, nid gyda'r bwriad o gynyddu lefel y gosb am y troseddau yma yn gyffredinol, ond er mwyn darparu pwerau dedfrydu digonol yn yr achosion mwyaf difrifol.

#### **Argymhelliad 80.**

11.24 Dylai uchafswm dedfryd o ddeng mlynedd o garchar fod ar gael mewn achosion o dwyll etholiadol difrifol fel dewis amgen i droi at y drosedd cyfraith gyffredin o gynllwynio i dwyllo.

## Chapter 12: Rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu

- 12.1 Mae ein argymhellion yma yn gysylltiedig â'r ymgyrchu "lleol" neu lefel etholaeth yn unig a wneir ar ran ymgeisydd penodol. Yn dilyn cam cwmpasu'r prosiect yma casglwyd bod rheoleiddio'r ymgyrchoedd cenedlaethol a gynhelir gan bleidiau gwleidyddol (neu'r driniaeth gyfreithiol neilltuol o ymgyrchoedd cenedlaethol) yn bwnc rhy wleidyddol sensitif i gyrff diwygio'r gyfraith anwleidyddol megis Comisiwn y Gyfraith fynd i'r afael ag ef. Er hynny, byddai diwygio'r gyfraith mewn perthynas â gwariant ar ymgyrchu mewn ffordd holistig yn ddefnyddol yn mynd i'r afael â'r ddau fath o ymgyrchu.
- 12.2 Mae'r gyfraith yn rheoleiddio gwariant ar etholiadau yn y ffyrdd canlynol:
- (1) Asiant yr ymgeisydd etholiadol sydd yn gyfrifol am wariant etholiadol. Mae'n rhaid penodi asiant, ac ni all unrhyw berson arall, gydag eithriadau cyfyngedig, ysgwyddo gwariant er mwyn hyrwyddo neu geisio ethol ymgeisydd. Gall trydydd partion wario arian hyd at gyfyngiad penodol.
  - (2) Mae cyfyngiadau treuliau wedi eu rhagnodi dan y gyfraith ar ffurf symiau penodol neu fformiwlâu. Mae'n rhaid i'r asiant etholiadol gwblhau a dychwelyd ffurflen datganiad a gwariant wedi ei llofnodi gan yr ymgeisydd i'r swyddog canlyniadau.
  - (3) Mae torri'r rheoliadau gwariant gan yr ymgeiswyr neu eu hasiantau (p'un a bod hynny yn ymwneud â therfynau gwariant neu gywirdeb y gwariant a adroddir) yn droseddau, ac felly gellir eu cosbi gyda dedfrydau troseddol. Maent hefyd yn arferion llwgr ac anghyfreithlon, sydd yn golygu y gallent arwain at ddatgymhwyso'r ymgeisydd a'r asiant rhag cyfranogi mewn etholiadau am gyfnod diffiniedig. Yn olaf, gall hynny hefyd fod yn sail i annilysu'r etholiad os cyflwynir her drwy ddeiseb etholiadol. Mae hynny yn golygu mai'r ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau.
- 12.3 Nod ein diwygiad yw cadw'r ymagwedd hon, ond ei nodi yn gliriach mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r gyfraith, sydd yn gynwysedig yn Neddf 1983 ac a efelychir mewn darpariaethau etholiad-benodol, yn eithriadol gymhleth. Nid yw cynllun y Ddeddf yn amlwg i gyfreithwyr hyd yn oed. Rydym yn argymhell y dylai'r darpariaethau sydd yn llywodraethu rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu fod mewn un set o godau ar gyfer pob etholiad, yn ddarostyngedig i gymhwysedd deddfwriaethol.
- 12.4 Bu nifer o ddatblygiadau mewn rheoliadau ymgyrchu ers cyhoeddi ein adroddiad interim. Fel y nodir uchod, mae'r gwahaniaeth rhwng ymgyrchu lleol a chenedlaethol wedi bod yn sail i rai o'r rhain, a'r prif ddatblygiad oedd penderfyniad y Goruchaf Lys yn *R v Mackinlay* [2018] UKSC 42, [2019] AC 387. Mae datblygiadau technegol hefyd wedi chwarae eu rhan, wrth i fwy o ymgyrchu ddigwydd ar-lein; yn etholiadau Seneddol y DU a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn 2017, roedd hysbysebu digidol yn

cyfateb i 42.8% o gyfanswm gwariant hysbysebu ymgyrchwyr.<sup>15</sup> Mae'r testunau yma yn cael eu trafod yn fanylach yn yr adroddiad terfynol.

#### **Argymhelliad 81.**

- 12.5 Dylai deddfwriaeth sydd yn llywodraethu rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu fod mewn un set o godau ar gyfer pob etholiad, yn ddarostyngedig i gymhwysedd deddfwriaethol.

#### **Argymhelliad 82.**

- 12.6 Dylai un atodlen i'r ddeddfwriaeth gynnwys y cyfyngiadau gwariant a ragnodir a'r rheolau sydd yn llywodraethu gwariant a rhoddion.

- 12.7 Mae rhai cyfyngiadau gwariant, er enghraifft y rhai mewn perthynas â gwariant ar etholiadau llywodraeth leol neu etholiadau cyffredinol Seneddol y DU, yn cael eu mynegi fel fformiwlâu. Ni ellir sefydlu'r union gyfyngiad dim ond os bydd yr ymgeisydd, asiant neu aelod o'r cyhoedd yn gwybod beth yw nifer yr etholwyr cofrestredig ar ddiwrnod cyhoeddi hysbysiad o'r etholiad. Rydym yn credu y dylai cyfyngiadau ar dreuliau o'r fath gael eu datgan gan y swyddog canlyniadau ynghyd â'r hysbysiad o etholiad.

#### **Argymhelliad 83.**

- 12.8 Dylai cyfyngiadau ar dreuliau a gyfrifir yn ôl fformiwlâ gael eu datgan gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholaeth neu ardal etholiadol mewn hysbysiad sydd yn ategu, neu yn syth ar ôl cyhoeddi hysbysiad o etholiad.

- 12.9 Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith sydd yn llywodraethu ffurflenni a datganiadau yn gallu peri dryswch, gan ei bod yn ofynnol i rai unigolion awdurdodedig gyflwyno ffurflen dreuliau ar wahân i ffurflen yr ymgeisydd. Rydym yn credu y dylai swyddogion canlyniadau dderbyn un ffurflen dreuliau a gyflwynir gan asiant yr ymgeisydd, yn cynnwys unrhyw wariant a awdurdodwyd.

---

<sup>15</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Digital campaigning – increasing transparency for voters* (Mehefin 2018).

#### **Argymhelliad 84.**

12.10 Dylai swyddogion canlyniadau dderbyn un set o ddogfennau sydd yn cynnwys y ffurflen dreuliau a datganiadau gan yr asiant etholiadol a'r ymgeisydd. Dylai'r rhain gynnwys unrhyw ddatganiad gan unigolyn awdurdodedig fydd yn cynnwys y manylion sydd ar hyn o bryd yn ofynnol eu hanfon at y swyddog canlyniadau o dan adran 75(2) Deddf 1983.

12.11 Yn olaf, mae'n ddyletswydd ar y swyddog canlyniadau o dan adran 88 Deddf 1983 i gyhoeddi argaeledd ffurflenni treuliau i'w harchwilio, ac i gyhoeddi ffurflenni na dderbynnir. Rydym yn credu y dylai'r ddyletswydd hon barhau, yn ddarostyngedig i'r broses fanwl, i fod mewn deddfwriaeth eilaidd, fel pan fo cyfleuster yn bodoli ar gyfer cyhoeddi ffurflenni treuliau ar-lein, y gellir ei ddefnyddio.

#### **Argymhelliad 85.**

12.12 Dylai swyddogion canlyniadau gyhoeddi a sicrhau bod ffurflenni treuliau ar gael i'w harchwilio (yn ogystal â chyhoeddi ffurflenni na dderbynnir). Dylai deddfwriaeth eilaidd ragnodi mewn manylder y broses ar gyfer y cyhoeddi a'r archwilio hwnnw, gan fraenaru'r tir ar gyfer cyhoeddi ar lein.



## Chapter 13: Her gyfreithiol

13.1 Mae'r gyfraith sydd yn llywodraethu her gyfreithiol yn eithriadol o gymhleth ac mae'n bennaf yn gynnwys datblygiadau hanesyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ddiweddar mae Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin wedi disgrifio'r broses fel un "hynafol, sydd yn rhy gymhleth ac nad yw'n addas i'r diben".<sup>16</sup> Mae pennod 13 yn rhannu'r pwnc yn seiliau i adolygu etholiadau, a'r weithdrefn sydd yn llywodraethu her gyfreithiol.

### Seiliau herio

13.2 Y llys etholiad sydd yn adolygu dilysrwydd yr etholiad, ond gall hefyd gywiro'r canlyniad drwy broses a elwir yn "graffu". Mae hon yn broses wrthwynebol all ddefnyddio olrhain pleidleisiau i herio, gerbron y llys, priodoldeb unrhyw bleidlais, ei diystyru neu ei chyfrif fel pleidlais a gyflwynwyd.

13.3 Mae'r athrawiaeth a elwir yn "bleidleisiau a deflir i ffwrdd" yn galluogi i lys benderfynu nad yw pleidleisiau dros ymgeisydd a ddatgymhwysir yn cyfrif, fel y gellir ethol yr ymgeisydd nesaf, a chywirir y canlyniad yn y modd hwnnw. Ond, mae datgymhwysu ymgeisydd hefyd yn gyffredinol yn sail i ddi-ddymu ethol yr ymgeisydd hwnnw. Mae annilysu canlyniadau etholiad o'r fath yn arwain at alw etholiad newydd, gan alluogi i'r etholwyr ethol ymgeisydd priodol gymwys sydd yn aelod o'r blaid y maent yn ei ffafrio. Mae hynny yn ddeiliant tecach, ac rydym yn ystyried y dylid diddymu "athrawiaeth pleidleisiau a deflir i ffwrdd".

### Argymhelliad 86.

13.4 Dylid diddymu athrawiaeth "pleidleisiau a deflir i ffwrdd".

13.5 Nid yw'r seiliau ar gyfer herio etholiadau wedi eu nodi'n gadarnhaol yn Neddf 1983. Bu i archwilio'r statud a chyfraith achos beri i ni gasglu y gellir diddymu etholiad ar un o dri sail:

(1) torri cyfraith etholiadol pan gynhelir etholiad, oedd naill ai yn:

(a) sylfaenol; neu

(b) a effeithiodd yn sylweddol ar ganlyniad yr etholiad.

(2) arferion llwgr neu anghyfreithlon a gyflawnwyd naill ai gan:

(a) yr ymgeisydd buddugol yn bersonol neu drwy asiant yr ymgeisydd; neu

<sup>16</sup> Electoral law: the urgent need for review, Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (2017-19) HC t 5.

(b) unrhyw un arall, er budd i'r ymgeisydd buddugol, pan fo arferion o'r fath mor eang fel y gellid tybio'n rhesymol eu bod wedi effeithio ar y canlyniad; neu

(3) bod yr ymgeisydd buddugol ar adeg yr etholiad wedi ei ddiarddel.

13.6 Ond nid yw'r seiliau yma yn amlwg o gwbl ar wyneb y ddeddfwriaeth, ac mae'r amlinelliad uchod yn ganlyniad i ystyriaeth i'r gyfraith achos, yn cynnwys y penderfyniad diweddar yn *Parkinson v Lewis* [2016] EWHC 725 (QB), [2016] 3 WLUK 546 (a gyhoeddwyd ar ôl cyhoeddi ein adroddiad interim). Mae rhai materion yn dal yn destun trafod. Nid yw i ba raddau mae diffygion ym mhapur enwebu ymgeisydd buddugol yn annilysu eu hetholiad yn glir. Hefyd, nid yw'r amser perthnasol pan ddaw datgymhwyso i "rym", fel bod hynny yn sail i ddiddymu, y tu hwnt i amheuaeth. Mae darpariaethau Deddf 1983 yn cyfeirio at adeg yr etholiad, ond mae yna o leiaf un achos o etholiad llywodraeth leol wedi diddymu ethol ymgeisydd oherwydd ei fod wedi ei ddatgymhwyso ar adeg yr enwebiad, oedd wedi ei unioni erbyn adeg yr etholiad. Yn olaf, mae yna broblemau o ran trosi'r seiliau uchod i etholiadau sydd yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau, yn arbennig rhai sydd yn gysylltiedig ag arferion llwgr neu anghyfreithlon. Mae hynny'n wir oherwydd mai pleidiau yn bennaf sydd yn sefyll etholiadau, nid ymgeiswyr unigol.

13.7 Rydym yn credu y dylai'r gyfraith mewn perthynas â herio etholiadau gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd yn llywodraethu pob etholiad. Dylai'r seiliau ar gyfer cywiro deilliant etholiadau neu eu hannilysu gael eu hailddatgan a'u nodi'n gadarnhaol. Dylid defnyddio set safonol a chyson o addasiadau i'r seiliau "clasurol" i herio mewn perthynas ag etholiadau sydd yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau. Mae ein hargymhellion wedi eu hanelu at set egwyddorol, clir a chyson o seiliau er mwyn herio pob etholiad.

#### **Argymhelliad 87.**

13.8 Dylai'r gyfraith sydd yn llywodraethu herio etholiadau gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd yn llywodraethu pob etholiad.

#### **Argymhelliad 88.**

13.9 Dylai'r seiliau ar gyfer cywiro deilliant etholiadau neu eu hannilysu gael eu hailddatgan a'u nodi'n gadarnhaol.

### **Argymhelliad 89.**

13.10 Mewn etholiadau sydd yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau, dylai'r llys allu diddymu'r etholiad yn ei chyfanrwydd, eu hymgeiswyr ar restr, ar sail arferion llwgr neu anghyfreithlon y gellir eu priodoli i'r ymgeisydd, plaid neu unigolyn, neu am lygredigaeth eang.

### **Argymhelliad 90.**

13.11 Dylai diffygion mewn perthynas ag enwebu, ac eithrio diffygion cwbl ffurfiol, annilysu'r etholiad os gellir tybio yn rhesymol eu bod wedi effeithio ar ganlyniad yr etholiad; dylai rhoi datganiad ffug yn fwriadol neu roi manylion ffug ar y ffurflen enwebu barhau i annilysu etholiad.

### **Argymhelliad 91.**

13.12 Dylai datgymhwysu ar adeg yr etholiad fod yn sail ar gyfer annilysu pob etholiad.

### **Argymhelliad 92.**

13.13 Dylai'r llys etholiad gael y pŵer i ystyried a yw datgymhwysiad wedi dod i ben, ac os ydyw, a yw'n briodol diystyru hynny, gan adlewyrchu'r pŵer o dan adran 6 Deddf Datgymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975.

### **Y weithdrefn ar gyfer cyflwyno deiseb etholiad**

13.14 Mae'r weithdrefn sydd yn llywodraethu deisebau etholiadau wedi ei nodi yn Neddf 1983 a deddfwriaeth etholiad-benodol, ac mae wedi ei ategu gan reolau gweithdrefnol ym mhob awdurdodaeth yn y DU. Mae'n gymhleth iawn, ac mewn nifer o rannau mae wedi dyddio. Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai achosion etholiadol pwrpasol yn "siop un stop" ar gyfer plismona etholiadau, ac felly arferai'r llys etholiad feddu ar awdurdodaeth mewn perthynas â chyfraith sifil a chyfraith troseddol. Roedd ganddo nodweddion stilgar, er mwyn canfod llygredigaeth. Dyluniwyd yr achosion deisebau wrth feddwl am derfynoldeb, heb ddim hawl i apelio ond yn caniatáu i achos gael i drosglwyddo i lys uwch ar bwynt y gyfraith.

13.15 Mewn gwirionedd mae deisebau etholiad yn achosion preifat gerbron barnwyr sydd yn defnyddio gweithdrefn sydd yn ffurfiol iawn, yn anhyblyg ac sydd wedi dyddio. Nid oes unrhyw broses ar gyfer hidlo deisebau anhaeddiannol. Mae terfynau amser yn orfodol, heb ddim disgrisiwn i ymestyn - ond gellir diystyru'r rhai sydd yn gynwysedig mewn deddfwriaeth eilaidd ar sail erthyl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel

achos *Miller v Bull* [2009] EWHC 2640 (QB), [2010] 1 WLR 1861. Mae llys etholiad - hyd yn oed un wedi ei staffio gan ddau farnwr yr Uchel Lys, fel yn achos *Woolas v Llys Etholiad Seneddol* [2010] EWHC 3169 (Gweinyddol); [2011] 2 WLR 1362 – yn ddarostyngedig yng Nghymru a Lloegr i awdurdodaeth adolygiad barnwrol yr Uchel Lys. Nid yw cymhwysedd adolygiad barnwrol i benderfyniadau llysoedd etholiad Yr Alban wedi cael ei brofi.

- 13.16 Mae cost cyflwyno deisebau etholiad yn broblem, oherwydd nad yw argaeledd gorchmynion costau gwarchodol neu'r hyn sydd yn cyfateb yn Yr Alban, gorchmynion treuliau gwarchodol, er mwyn capio costau herio y tu hwnt i amheuaeth mewn unrhyw ffordd.
- 13.17 Ein ymagwedd tuag at ddiwygio yma, a groesawyd gan yr uwch farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr, yw gosod y system herio yn rhan o strwythur gweithdrefn sifil arferol y DU. Yn ein adroddiad interim rydym yn argymhell y dylai heriau etholiadol fod yn ddarostyngedig i reolau gweithdrefnol arferol y llysoedd, gaiff eu diweddarau gyda threigl amser; dylid eu clywed yn y system llysoedd arferol yn y DU, gydag un hawl i apelio. Mae hynny yn well na'r trefniadau presennol cymhleth sydd wedi dyddio.
- 13.18 Ond, yn Yr Alban, roedd Seneddwy'r y Coleg Cyfiawnder yn anghytuno gyda'n cynnig i osod y llys etholiad yn rhan o'r system llysoedd arferol yn Yr Alban. Roedd y Seneddwy'r yn gweld gwerth mewn "adolygu pwerau a gweithdrefnau presennol y llys etholiad, ac mewn egluro'r cwmpas ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau'r llys etholiadol drwy ddarparu un apêl ar bwynt y gyfraith i'r Tŷ Mewnol yn Yr Alban". Ar ôl mwy o ystyriaeth, rydym yn cytuno bod y newidiadau a argymhellwyd yn ein hadroddiad interim yn llai angenrheidiol yn Yr Alban na gweddiill y DU. Oherwydd hynny rydym yn cyfyngu ein hargymhellion (y dylai heriau cyfreithiol gael eu clywed yn y system llysoedd arferol) i Gymru a Lloegr.

#### **Argymhelliad 93.**

- 13.19 Dylai heriau gael eu llywodraethu ym mhob awdurdodaeth yn y DU gan reolau gweithdrefnol syml a modern. Dylai barnwyr barhau i ystyried anghenion cyfiawnder, gan sefydlu cydbwysedd rhwng mynediad i'r llys a sicrwydd mewn deilliannau etholiadol.

#### **Argymhelliad 94.**

- 13.20 Dylai heriau cyfreithiol gael eu clywed yn y system llysoedd arferol yng Nghymru a Lloegr, gydag un hawl i apelio i'r Llys Apêl.

### **Argymhelliad 95.**

- 13.21 Dylai deisebau etholiad yng Nghymru a Lloegr gael eu clywed gan yr Uchel Lys; dylai barnwyr, yn cynnwys dirprwy farnwyr, gael eu hawdurdodi i wrando ar ddeisebau etholiad gan yr uwch farnwriaeth.
- 13.22 Mae'r argymhellion uchod yn cydnabod bod heriau etholiad yn achosion llys preifat, sydd yn golygu ymrwymiad a risg ariannol gan y parti sydd yn herio. Ond roedd ein papur ymgynghorol yn cynnig y dylai lles y cyhoedd mewn deisebau etholiad gael ei gydnabod, a gofynnwyd rhai cwestiynau mewn perthynâ â chorff sydd yn deisebu ynghylch lles y cyhoedd.
- 13.23 Roedd yr ymateb i'n ymgynghoriad yn ffafrio'r egwyddor o ddeisebu er lles y cyhoedd, ond roedd yn amrywio'n sylweddol ynglŷn â'r ymarferoldeb ynghylch pa achosion ddylai deisebwr er lles y cyhoedd eu cymryd. Roedd yna hefyd bryder y byddai'r broses mewn perthynas â deisebydd cyhoeddus yn dod yn fan cychwyn ar gyfer herio etholiadau yn gyfreithiol, gan roi straen ar adnoddau'r corff, yn ogystal ag amlygu'r corff hwnnw i'r risg o greu canfyddiad o gymhelliant gwleidyddol wrth gyflwyno deisebau er lles y cyhoedd. Felly penderfynwyd peidio ag argymell y dylid cael deisebwr er lles y cyhoedd.
- 13.24 Mae gorchmynion costau gwarchodol, neu'r hyn sydd yn cyfateb yn yr Alban, gorchmynion treuliau gwarchodol, yn offeryn gweithdrefnol, sydd ar gael mewn rhai achosion cyfraith gyhoeddus er mwyn hyrwyddo heriau a gyflwynir er lles y cyhoedd drwy leihau a sefydlu ymlaen llaw, atebolrwydd yr hawlydd i dalu costau y parti arall. Rydym yn credu y dylai eu hargaeledd mewn achosion etholiadol fod y tu hwnt i amheuaeth.
- 13.25 Rydym hefyd yn argymell y dylai swyddogion canlyniadau allu cyflwyno deiseb etholiad mewn achos o gyfaddef i dorri cyfraith etholiadol wrth gynnal etholiad; ni ddylent orfod disgwyl i rywun arall gyflwyno un.

### **Argymhelliad 96.**

- 13.26 Dylai pwerau llysoedd sydd yn gwrandao ar heriau etholiad i roi gorchmynion costau neu dreuliau gwarchodol gael ei gydnabod, os bydd angen, mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### **Argymhelliad 97.**

- 13.27 Dylai swyddogion canlyniadau allu cyflwyno deisebau mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri cyfraith etholiadol wrth weinyddu'r etholiad; yn benodol dylent allu cyflwyno cais cychwynnol i brofi a effeithiodd tramgwydd tybiedig ar y canlyniad.

13.28 Yn olaf, rydym yn ystyried y dylai cwynion anffurfiol - rhai nad ydynt yn amcanu at effeithio ar ddeiliant neu ddilysrwydd etholiad - gael eu cydnabod yn ffurfiol gan gyfraith etholiadol. Y pwynt pwysig yma yw bod cwynion pleidleiswyr yn cael eu clywed, a bod gwersi yn cael eu dysgu gan weinyddwyr etholiadol. Ar ôl gofyn i ymgynghoreion pwy ddylai ystyried cwynion o'r fath, rydym yn casglu mai'r ombwdsmon sydd â chyfrifoldeb am lywodraeth leol ddylai wneud hynny.

**Argymhelliad 98.**

13.29 Dylai cwynion etholwyr ynghylch gweinyddu etholiadau (nad ydynt yn amcanu at wyrdroi'r canlyniad) gael eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Yr Alban ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Chapter 14: Refferenda

14.1 Mae pennod 14 yn ystyried refferenda cenedlaethol, refferenda llywodraeth leol a phleidleisiau plwyf.

### Refferenda cenedlaethol

14.2 Mae Rhan VII Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn llywodraethu refferenda cenedlaethol, ond nid eu gweinyddiaeth etholiadol. Mae'n rhaid i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd y galw refferenda ("y Ddeddf symbylu"), neu ddeddfwriaeth eilaidd a lunnir oddi tani, nodi'r cyfreithiau manwl sydd yn llywodraethu cynnal refferendwm, ac ymgorffori'r strwythur presennol ar gyfer cynnal y bleidlais, o'r gofrestr etholiadol i'r cofnodion pleidleisio absennol. Rydym yn credu bod yr ymagwedd bresennol hon o "ailddyfeisio'r olwyn" ar gyfer refferenda yn anfoddfaol. Mae'n cyflwyno swm mawr o reolau newydd i weinyddwyr a llwyth gwaith diangen i ddeddfwrfeydd, ac mae'n achosi risg o wallau deddfwriaethol. Mae'n ymddangos i ni ei bod yn ddymunol cynhyrchu set o reolau cynnal refferenda cyffredinol y gellid eu cymhwyso yn syml gyda mân addasiadau i refferenda penodol. Byddai hynny yn lleihau cymhlethodd presennol y gyfraith, yn cyflymu'r broses ddeddfwriaethol ac yn gwneud i'r rheolau cynnal fod yn hygyrch ymlaen llaw.

14.3 Cyhoeddwyd ein adroddiad interim ychydig cyn refferendwm y DU ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi ailystyried yr argymhellion a gynigiwyd yn ein hadroddiad interim yn ofalus er mwyn gweld a ddylid eu diweddarau yng ngoleuni profiadau'r refferendwm honno. Rydym yn dal i gredu y byddai'r gyfraith mewn perthynas â refferenda yn elwa'n fawr o'r symleiddio a'r rhesymoli fyddai'n deillio o'n argymhellion. Rydym yn nodi'n benodol bod y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad ar refferendwm yr UE wedi cytuno â'n safbwynt y dylid cael darpariaeth gyffredinol ar gyfer cynnal refferenda.<sup>17</sup> Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Yr Alban wedi cymryd camau i'r cyfeiriad yma; trafodir Deddf Refferenda (Yr Alban) 2020 yn fanylach yn yr adroddiad terfynol.

### Argymhelliad 99.

14.4 Dylai deddfwriaeth sylfaenol sydd yn llywodraethu cofrestrau etholiadol, hawl i bleidlais absennol, rheolau pleidleisio craidd a throseddau etholiadol gael ei hymestyn i gynnwys refferenda cenedlaethol pan fo hynny yn briodol.

<sup>17</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union* (Medi 2016) p 7.

### **Argymhelliad 100.**

- 14.5 Dylai deddfwriaeth eilaidd nodi'r rheolau cynnal manwl sydd yn llywodraethu refferenda cenedlaethol, gan adlewyrchu'r rhai sydd yn llywodraethu etholiadau, ac eithrio addasiadau angenrheidiol.

### **Refferenda lleol**

- 14.6 Mae yn dri math o refferenda lleol yng Nghymru a Lloegr ( refferenda Maerol, y dreth gyngor a chynllunio cymdogaeth). Mae pob un yn cael eu cynnal o dan statud, gyda Deddf yn nodi'r broses ar gyfer symbylu refferendwm o'r fath a rheolau mewn perthynas â'u mynychder, yn ogystal â nodi'r etholfraint drwy nodi bod hawl i bleidleisio mewn refferenda yn seiliedig ar ymddangos ar y gofrestr llywodraeth leol. Mae'r rheolau cynnal manwl yn cael eu nodi ar gyfer y gwahanol fathau o refferenda mewn offerynnau statudol ar wahân.
- 14.7 Mae problemau cyffelyb yn codi yma fel yn achos y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau. Mae pedwar darn neilltuol o ddeddfwriaeth yn llywodraethu'r tri math o refferenda lleol, sydd yn bennaf yn seiliedig ar y gyfraith sydd yn llywodraethu etholiadau llywodraeth leol, er bod hynny gydag addasiadau angenrheidiol (er nad yn gyson o reidrwydd) oherwydd y ffaith eu bod yn gysylltiedig â refferenda. Mae rheolau union yr un fath yn cael eu hailadrodd yn ddiangen ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Yma eto, nod ein diwygio yw y dylai un set o ddarpariaethau llywodraethu'r mecanweithiau a ddefnyddir ar gyfer cynnal refferenda lleol.
- 14.8 Dylid cael un set o reolau cynnal a darpariaethau herio ar gyfer eu llywodraethu. Byddai hynny yn dileu anghysonderau ym manylion y rheolau nad ydynt yn cael eu cyfiawnhau gan natur y refferendwm dan sylw.

### **Argymhelliad 101.**

- 14.9 Dylai un fframwaith deddfwriaethol lywodraethu manylion cynnal refferenda lleol, yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn llywodraethu eu symbylu.

### **Her gyfreithiol**

- 14.10 Rydym hefyd yn ystyried y dylai un set o seiliau lywodraethu herio refferenda lleol. Bydd y rhain yn union yr un fath â'r rhai sydd yn llywodraethu herio etholiadau, ac eithrio - oherwydd nad oes unrhyw ymgeisydd - na all cyflawni arferion llwgr neu anghyfreithlon gan unrhyw un olygu y diddymir dilysrwydd y refferendwm yn yr un modd ag y mae ymddygiad gan neu y gellir ei briodoli i ymgeisydd yn llygru ei etholiad. Yr unig sail sydd yn ddealladwy yng nghyd-destun refferenda yw llygredigaeth "eang" yn y refferendwm y gellir tybio yn rhesymol ei fod wedi effeithio ar y deilliant. Bydd y llys yn dal yn gallu adolygu, a diddymu refferenda oherwydd llygredd oedd yn tueddu i ffafrio'r canlyniad a gafwyd. Gellir cosbi llygredigaeth unigol o hyd drwy gyfraith droseddol.



14.11 Ar ôl ymgynghori, rydym hefyd yn casglu y dylai heriau i refferenda cynllunio cymdogaeth barhau i fod drwy adolygiad barnwrol gerbron Llys Gweinyddol, er y dylai'r olaf ystyried y seiliau herio uchod. Ar hyn o bryd ni roddir unrhyw arweiniad yn y gyfraith ynghylch pa seiliau ddylai'r Llys Gweinyddol eu hystyried.

#### **Argymhelliad 102.**

14.12 Dylai'r seiliau ar gyfer herio sydd yn llywodraethu etholiadau fod yn gymwys i etholiadau lleol, ac eithrio y dylai arferion llwgr neu anghyfreithlon fod yn sail ar gyfer diddymu refferendwm dim ond os oeddent yn digwydd yn eang ac y gellir tybio'n rhesymol eu bod wedi effeithio ar y deilliant.

#### **Argymhelliad 103.**

14.13 Dylai refferenda cynllunio cymdogaeth barhau i gael eu herio drwy adolygiad barnwrol, ond dylid rhoi cyfarwyddyd i'r llys ystyried y seiliau safonol ar gyfer herio refferenda lleol.

#### **Pleidleisiau plwyf**

14.14 Mae pleidleisiau plwyf yn bleidleisiau a symbylir gan ddinasyddion mewn plwyfi yn Lloegr a chymunedau yng Nghymru, sef yr haen isaf o gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr. Maent yn wahanol i'r refferenda lleol a ystyrir uchod yn yr ystyr eu bod yn ffurfio penderfyniad uniongyrchol gan yr etholwyr lleol ar faterion gerbron y cyngor plwyf neu gymuned. Felly mae gan ddeilliant pleidlais plwyf yr un statws â phenderfyniad cyngor. Felly gellir ei wyrdroi gan benderfyniad dilynol gan y cyngor.

#### **Pwrpas pleidleisiau plwyf**

14.15 Gall cynghorau plwyf a chymuned ethol cadeirydd a phenodi cynghorwyr ychwanegol drwy wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd plwyf. Gellir cyflwyno materion o'r fath i bleidlais plwyf o dan reolau 1987. I bob pwrpas, mae hon yn etholiad gan etholwyr y plwyf neu gymuned i gadeiryddiaeth y cyngor plwyf neu swydd arall. Yn yr achos hwnnw, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn unol â rheolau sydd yn gyffelyb i'r rhai sydd yn llywodraethu etholiadau cynghorau plwyf. Rydym yn credu nad oes yna unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ellir cynnal pleidleisiau o'r fath, os mynnir hynny yn briodol mewn cyfarfodydd plwyf, yn unol â'r rheolau sydd yn llywodraethu etholiadau plwyf a chyngor o fewn y fframwaith safonol sydd yn llywodraethu etholiadau, yn ddarostyngedig i absenoldeb cam enwebu: dylai'r ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad gael eu nodi yn y cyfarfod sydd yn penderfynu cynnal pleidlais.

14.16 Mae'r ail fath o bleidlais plwyf, a'r un mwyaf cyffredin, yn gofyn cwestiwn ynghylch unrhyw fater sydd yn codi y mae angen i'r cyngor plwyf benderfynu arno. Mewn achos o'r fath, mae'r bleidlais yn debyg i refferendwm ar fater plwyf. Er nad yw hynny yn cael ei fynegi'n amlwg yn unman, ni all y cwestiwn fod y tu allan i'r amrediad priodol o benderfyniadau a wneir gan gyngor plwyf, neu beidio cael cymhwysiad ymarferol.

14.17 Mae'r rheolau sydd yn llywodraethu cynnal pleidleisiau plwyf yn dyddio'n ôl i 1987, ac oherwydd hynny nid ydynt yn gydnaws â gweddill cyfraith gweinyddiaeth etholiadol. Rydym yn credu y dylai pleidleisiau plwyf gael eu cynnal yn unol â'r rheolau cynnal safonol sydd yn llywodraethu refferenda lleol (pan fo'r bleidlais yn gofyn cwestiwn) a'r rheolau safonol sydd yn llywodraethu etholiadau (pan fo'r bleidlais yn ymwneud â phenodi), ac eithrio addasiad i hepgor y cam enwebu.

**Argymhelliad 104.**

14.18 Dylai pleidlais plwyf neu gymuned cysylltiedig â phenodiad gael ei llywodraethu gan y rheolau cynnal sydd yn llywodraethu etholiadau, gan hepgor y cam enwebu.

**Argymhelliad 105.**

14.19 Dylai pleidlais plwyf neu gymuned cysylltiedig â mater gael ei llywodraethu gan y rheolau cynnal ar gyfer refferenda lleol.

**Argymhelliad 106.**

14.20 Dylid diffinio cwmpas y materion all fod yn destun pleidlais plwyf neu gymuned.

## GEIRFA

Deddf 1983	Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
Deddf 1985	Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.
<b>Pleidleisio absennol</b>	Pleidleisio heb fynychu gorsaf bleidleisio yn bersonol: naill ai pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.
<b>Systemau aelod ychwanegol ("AMS")</b>	Systemau pleidleisio pan fo mwy o aelodau o'r corff etholedig, yn ychwanegol at yr ymgeiswyr a etholir gan y system cyntaf i'r felin, yn cael eu hethol gan system bleidleisio wahanol megis y rhestrau pleidiau.
<b>Asiant yr ymgeisydd</b>	Mae'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i berson gael ei benodi gan ymgeisydd er mwyn cyflawni rhai swyddogaethau penodol mewn cysylltiad ag etholiad ar ran yr ymgeisydd. Hefyd, cyfeirir at unigolion eraill sydd yn gweithredu ar ran ymgeisydd penodol yn asiantau i'r ymgeisydd, ac mae camymddygiad gan y cyfryw asiantau yn gallu annilysu etholiad ymgeisydd.
<b>Pleidleisio gyda chymorth</b>	Pleidleisio gyda chymorth cydymaith, neu gymorth swyddog llywyddu.
<b>Canfasio/ ffurflen ganfasio</b>	Y broses o adnabod pobl sydd yn gymwys i bleidleisio, at ddibenion eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol leol. Fel arfer mae'n golygu anfon ffurflen ganfasio i bob aelwyd yn yr ardal.
<b>Y rhestr rhifau cyfatebol</b>	Rhestr a roddir i orsaf bleidleisio. Pan roddir papurau pleidleisio i bleidleiswyr, mae rhif y papur pleidleisio yn cael ei nodi ar y rhestr gyferbyn â rhif cofrestru etholiadol y pleidleisiwr. Os bydd angen, gellir defnyddio'r rhestr i olrhain pleidleisiau.

<b>Prif Swyddog Cyfrif</b>	Y person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynnal refferenda cenedlaethol, a refferenda lleol ar brydiau.
<b>Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon</b>	Y swyddog sydd yn swyddog canlyniadau ac yn swyddog cofrestru etholiadol ar gyfer pob etholiad yng Ngogledd Iwerddon, ac sydd yn gyfrifol am Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon.
<b>Y rheolau clasurol</b>	Term a ddefnyddir gennym i gyfeirio at set o reolau sydd yn llywodraethu etholiadau Seneddol a llywodraeth leol sydd yn tarddu o ddiwygiadau Fictoraidd 1872 a 1883, ac sydd erbyn hyn i'w cael yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
<b>Etholiad cyffredinol cynnar</b>	Term a ddefnyddir yn Neddf Seneddau Tymor Penodol 2011 i ddisgrifio etholiad seneddol sydd yn digwydd o ganlyniad i bleidlais yn y Senedd yn hytrach nag ar adeg penodol.
<b>Deddfwriaeth etholiad-benodol</b>	Deddfwriaeth sydd yn llywodraethu etholiadau i gorff etholedig penodol neu swydd.
<b>Comisiwn Etholiadol</b>	Y corff statudol annibynnol sydd yn rheoleiddio cyllid pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchu yn y Deyrnas Unedig, ac sydd yn pennu safonau ac yn darparu arweiniad ynghylch gweinyddu etholiadau. Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am weinyddu refferenda cenedlaethol.
<b>Llys etholiad</b>	Llys a gyfansoddwyd i wrando ar ddeisebau etholiad.
<b>Deiseb etholiad</b>	Y broses gyfreithiol a ddefnyddir i herio etholiad gerbron llys etholiad.
<b>Bwrdd Rheoli Etholiadol Yr Alban</b>	Y corff sydd â'r swyddogaeth gyffredinol o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau llywodraeth leol yn Yr Alban, gan gynorthwyo

awdurdodau lleol ac eraill i gyflawni eu swyddogaethau a hyrwyddo arferion gorau.

<b>Cyntaf i'r felin</b>	Y system bleidleisio draddodiadol pan fo'r ymgeisydd sydd yn ennill y rhan fwyaf o'r pleidleisiau yn cael ei ethol.
<b>Etholfraint</b>	Yr hawl i bleidleisio; y mynegiant cyfreithiol o bwy sydd â hawl i bleidleisio.
<b>Awdurdod Llundain Fwyaf ("GLA")</b>	Mae Awdurdod Llundain Fwyaf yn cynnwys Maer Llundain a Chynulliad Llundain sydd â 25 aelod. Mae'r Maer yn cael ei ethol drwy ddefnyddio'r system bleidlais ategol. Mae yna ddau fath o aelodau yng Nghynulliad Llundain. Mae aelodau etholaethol yn cael eu hethol gan etholwyr yn Llundain yn ystod y system cyntaf i'r felin. Mae aelodau Llundain yn cael eu hethol ar hyd a lled Llundain drwy ddefnyddio'r system rhestrau pleidiau.
<b>System cofrestru aelwydydd</b>	Term yr ydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r broses flaenorol o gofrestru pleidleiswyr yn seiliedig ar ffurflen ganfasio a gwblhawyd. Mae cofrestru aelwydydd wedi cael ei ddisodli ym Mhrydain Fawr gan gofrestru etholiadol unigol, sydd wedi bodoli yng Ngogledd Iwerddon ers 2002.
<b>Cofrestru etholiadol unigol</b>	Y broses o gofrestru etholwyr ar sail cais gan bob unigolyn i gael eu cofrestru.
<b>Y model llywodraeth leol</b>	Term a ddefnyddir gennym i disgrifio'r nodweddion hynny o'r rheolau clasurol sydd yn benodol gysylltiedig ag etholiadau llywodraeth leol.
<b>Y model seneddol</b>	Term a ddefnyddir gennym i disgrifio'r nodweddion hynny o'r rheolau clasurol sydd yn benodol gysylltiedig ag etholiadau Seneddol y DU.

<b>Y system rhestrau pleidiau</b>	System bleidleisio pan fo pleidleiswyr yn pleidleisio am restr o ymgeiswyr a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn ogystal ag ymgeiswyr annibynnol (nad ydynt yn perthyn i blaid).
<b>Pleidleisio'n bersonol</b>	Pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, yn hytrach na thrwy'r post neu drwy ddirprwy.
<b>Adolygiad barnwrol</b>	Y broses ar gyfer herio gweithredoedd a phenderfyniadau cyhoeddus a gweinyddol gerbron yr Uchel Lys neu'r Llys Sesiwn yn Yr Alban.
<b>Clercod pleidleisiau</b>	Swyddogion a benodir gan y swyddog canlyniadau i gynorthwyo'r swyddog llywyddu mewn gorsaf bleidleisio.
<b>Ardal bleidleisio</b>	Rhan o ardal etholiadol sydd yn cael ei gwasanaethu gan orsaf bleidleisio.
<b>Man pleidleisio</b>	Ardal neu adeilad mewn ardal bleidleisio wedi ei ddynodi gan yr awdurdod lleol fel ardal neu le ble bydd gorsaf bleidleisio yn cael ei sefydlu.
<b>Gorsaf bleidleisio</b>	Set o gyfleusterau ar gyfer pleidleisio'n bersonol, fel arfer yn cynnwys bwrdd ble bydd clercod pleidleisio yn marcio'r gofrestr gorsaf bleidleisio ac yn rhoi papurau pleidleisio, bythau ble gall pleidleiswyr farcio eu papurau pleidleisio yn breifat a blwch neu flychau pleidleisio y rhoddir papurau pleidleisio wedi eu marcio ynddynt. Gall ystafell mewn adeilad gynnwys mwy nag un gorsaf bleidleisio.
<b>Pleidleisio drwy'r post</b>	Bwrw pleidlais ar bapur pleidleisio a anfonir drwy'r post i'r swyddog canlyniadau drwy ddatganiad pleidleisio drwy'r post; rydym yn cyfeirio at y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r papur pleidleisio gyda'i gilydd yn bapurai pleidleisio drwy'r post. Hefyd gellir cyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post o orsafoedd pleidleisio.
<b>Datganiad pleidleisio drwy'r post</b>	Datganiad mewn ffurflen a ragnodir bod gan berson sydd yn pleidleisio drwy'r post hawl i fwrw'r bleidlais.

<b>Swyddog llywyddu</b>	Y swyddog a benodir gan y swyddog canlyniadau i lywyddu ar orsaf bleidleisio benodol.
<b>Deddfwriaeth sylfaenol</b>	Deddfwriaeth sydd yn gynwysedig mewn Deddf gan Senedd y DU, Senedd Yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon.
<b>Prif ardaloedd</b>	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i gyfeirio at siroedd, rhanbarthau, bwrdeistrefi a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru a Lloegr.
<b>Pleidleisio drwy ddirprwy</b>	Bwrw pleidlais drwy “ddirprwy” a benodir i fwrw pleidlais yn bersonol neu drwy’r post ar ran etholwr.
<b>Plaid wleidyddol gofrestredig</b>	Plaid wleidyddol a gofrestrwyd gan y Comisiwn Etholiadol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
<b>Swyddog cofrestru</b>	Swyddog awdurdod lleol sydd yn gyfrifol am gynnal cofrestr o bobl sydd yn byw mewn ardal awdurdod lleol, sydd yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau a gynhelir yn yr ardal honno.
<b>Swyddog canlyniadau</b>	Y swyddog sydd yn gyfrifol am gynnal etholiad mewn ardal benodol a “chyhoeddi” y canlyniad. Ar hyn o bryd y swyddog canlyniadau yng Nghymru a Lloegr mewn etholiadau Seneddol yw person pwysig megis siryf sirol, ac mae’r rhan fwyaf o swyddogaethau swyddog canlyniadau yn cael eu rhyddhau gan swyddog canlyniadau dros dro.
<b>Deddfwriaeth eilaidd</b>	Deddfwriaeth ar ffurf Rheoliadau a wneir o dan bwerau llunio cyfreithiau a roddir (fel arfer) i Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion.
<b>Y bleidlais sengl drosglwyddadwy (“STV”)</b>	System bleidleisio pan fo pleidleiswyr yn bwrw pleidlais i fwy nag un ymgeisydd, yn nhrefn ffafriaeth. Yr ymgeiswyr buddugol yw’r rhai y mae eu pleidleisiau yn cyrraedd ‘cwota’ a bennir gan swm yr etholwyr a nifer y llyfeydd sydd i’w llenwi. Bydd y broses o gyfrif y pleidleiswyr yn digwydd fesul cam. Ar bob cam bydd yr ymgeisydd â’r sgôr isaf yn cael ei ddiystyru a bydd y pleidleisiau a fwrir i’r ymgeisydd hwnnw yn cael eu trosglwyddo i’r ymgeisydd sydd wedi

ei farcio nesaf yn nhrefn ffafriaeth ar y papur pleidleisio. Pan fo pleidleisiau ar gyfer ymgeisydd yn cyrraedd y cwota ar unrhyw gam, bydd cyfran o'r pleidleisiau a fwrir i'r ymgeisydd hwnnw yn cael eu trosglwyddo i'r ymgeisydd sydd wedi ei farcio nesaf yn nhrefn ffafriaeth ar y papur pleidleisio. Bydd y broses yn cael ei hailadrodd nes bod yr holl seddi wedi eu llenwi.

<b>Y bleidlais ategol</b>	System bleidleisio pan fo pleidleiswyr yn bwrw pleidlais gyntaf ac ail bleidlais yn nhrefn ffafriaeth; os na fydd unrhyw ymgeisydd yn sicrhau mwy na hanner y pleidleisiau ffafrio cyntaf, bydd yr ail bleidleisiau ffafrio yn cael eu hystyried.
<b>Papur pleidleisio a gyflwynir neu bleidlais a gyflwynir</b>	Papur pleidleisio neu bleidlais a fwrir gan bleidleisiwr y mae'n ymddangos ei fod eisoes wedi pleidleisio'n bersonol neu drwy ddirprwy neu sydd ar y rhestr pleidleisio drwy'r post. Os bydd y pleidleiswyr yn gwadu ei fod wedi pleidleisio neu wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post, mae'n rhaid rhoi papur pleidleisio iddo fydd yn cael ei gadw ar wahân ar ôl ei farcio. Gall llys etholiad orchymyn i'r bleidlais honno gael ei chyfrif os bydd yn fodlon ei bod yn ddilys.
<b>Gwirio</b>	Y broses o gysoni nifer y papurau pleidleisio a dderbyniwyd gan orsaf bleidleisio mewn cyfrif gyda nifer y papurau a roddwyd i'r orsaf bleidleisio dan sylw.
<b>Olrhain pleidleisiau</b>	Defnyddio'r rhestr rhifau cyfatebol i olrhain y papur pleidleisio a roddwyd i bleidleisiwr penodol. Gellir gwneud hynny yn gyffredinol drwy orchymyn llys etholiad pan amheuir anghysonderau pleidleisio.
<b>System bleidleisio</b>	Y system ar gyfer canfod yr ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus yn seiliedig ar y pleidleisiau a fwrir; mae enghreifftiau yn cynnwys cyntaf i'r felin, y system rhestrau pleidiau, y bleidlais sengl drosglwyddadwy a'r bleidlais ategol.
<b>Gwarant am writ is-etholiad</b>	Cam a gymerir gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin sydd yn peri i Glerc y Goron mewn Siawnsri i roi gwrit is-etholiad i'r swyddog canlyniadau.



**Gwrit etholiad neu is-etholiad** Dogfen frenhinol sydd yn cyfathrebu i'r swyddog canlyniadau bod etholiad neu is-etholiad yn cael ei galw.